Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 58/2025

Dyddiad cyhoeddi: 10/07/2025

# Gwerthusiad y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol i Bobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru: cynllun dadansoddi ystadegol

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

© Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol **978-1-80633-023-2**

Gwerthusiad y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol i Bobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru: cynllun dadansoddi ystadegol

**Awduron:** Michael Sanders[2], Elizabeth Schroeder[3], Patrick Fahr[3], Dimitris Vallis[2], Vibhor Mathur[1], Louise Roberts[1], Zoe Bezeczky[1], Kate E Pickett[4], Matthew Johnson[5], Rod Hick[6], Stavros Petrou[3], Sally Holland[1] a David Westlake[1]

1. Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol i Blant (CASCADE), Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd
2. Y Sefydliad Polisi, Coleg y Brenin, Llundain
3. Adran Gofal Sylfaenol Gwyddorau Iechyd Nuffield, Prifysgol Rhydychen
4. Yr Adran Gwyddorau Iechyd, Prifysgol Efrog
5. Yr Adran Gwaith Cymdeithasol, Addysg a Lles Cymunedol, Prifysgol Northumbria
6. Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd

Adroddiad Llawn yr Ymchwil: Sanders, M., Schroeder, E., Fahr, P., Vallis, D., Mathur, V., Roberts, L., Bezeczky, Z., Lloyd, H., Pickett, K.E., Johnson, M., Hick, R., Petrou, S., Holland, S. a Westlake, D. (2025). Gwerthusiad y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol i Bobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru: cynllun dadansoddi ystadegol Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 58/2025:

Ar gael yma: https://www.llyw.cymru/gwerthusor-cynllun-peilot-incwm-sylfaenol-i-bobl-ifanc-syn-gadael-gofal-yng-nghymru-cynllun-dadansoddi-ystadegol

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:


Jennie Mack

Yr Is-adran Tystiolaeth a Chymorth Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ebost: YmchwilCyfiawnderCymdeithasol@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


Rhestr tablau ..... 3

Rhestr ffigurau ..... 4

Geirfa 5

Cyflwyniad ..... 11

- Trosolwg o'r cynllun peilot ..... 11
- Trosolwg o'r gwerthusiad ..... 13
  - Cyd-gynhyrchu ..... 13
  - Gwella theori ..... 14
  - Gwerthuso effaith ..... 14
  - Gweithredu a gwerthuso'r broses ..... 14
  - Gwerthusiad economaidd ..... 14
- Nodau a chwmpas yr adroddiad hwn ..... 15

Cynllun dadansoddi ystadegol ar gyfer dadansoddi effaith ..... 16

- Cymariaethau lled-arbrofol ..... 16
- Ffynonellau data ..... 17
  - Data'r arolwg ..... 17
  - Data gweinyddol ..... 18
- Mesurau canlyniadau ..... 21
- Methodoleg baru: cyfatebu llawn garw ..... 23
- Strategaeth ddadansoddol: gwahaniaeth mewn gwahaniaethau ..... 23
- Mae angen bodloni pum rhagdybiaeth er mwyn sicrhau dilysrwydd: ..... 24
  - Dim endogenedd polisi ..... 24
  - Tueddiadau cyffredin ..... 24
  - Dim gorlifiadau ..... 24
  - Unigrywiaeth ..... 24
  - Cyfansoddiad grŵp sefydlog ..... 25
  - Dewis sampl ..... 25
  - Paru ar lefel awdurdod lleol ..... 26
  - Cydbwysedd ôl-baru ..... 27
  - Manyleb ddadansoddol: data'r arolwg ..... 27
  - Dadansoddiad cynradd ..... 27
- Data T2 yn unig ..... 28

Dadansoddiad eilaidd ....................................................................................................28
Priodoliad ....................................................................................................28
Gwiriadau cadernid ....................................................................................................28
Manyleb ddadansoddol: data gweinyddol ....................................................................................................29
Priodoliad ....................................................................................................29
Carfanau ychwanegol....................................................................................................29
Gwahaniaeth mewn gwahaniaethau gwrthffeithiol ....................................................................................................29
Dadansoddiad eilaidd ....................................................................................................30
Gwiriadau cadernid ....................................................................................................30
Cynllun dadansoddi ystadegol ar gyfer dadansoddi economaidd ....................................................................................................31
Cyflwyniad ....................................................................................................31
Rhesymeg ar gyfer y gwerthusiad economaidd....................................................................................................31
Amcanion ymchwil ....................................................................................................31
Persbectif....................................................................................................32
Gorwel amser a dilyniant ....................................................................................................32
Mesur y defnydd o adnoddau ....................................................................................................32
Prisio data defnydd adnoddau ....................................................................................................33
Dadansoddi data ....................................................................................................33
Dadansoddiad canlyniadau a chostau ....................................................................................................34
Ansicrwydd a dadansoddiadau sensitifrwydd ....................................................................................................34
Casgliadau....................................................................................................36
Cyfeiriadau....................................................................................................37

# Rhestr tablau

Tabl 1: Cymariaethau a ffynonellau data ........................................................................ 19
Tabl 2: Canlyniadau a ffynonellau data ........................................................................ 21

# Rhestr ffigurau

Ffigur 1: Enghraifft o wahaniaeth mewn gwahaniaethau (a atgynhyrchwyd o Sanders ac eraill, 2023) ....................................................................................................24

# Geirfa

**Incwm Sylfaenol**

Mae incwm sylfaenol yn daliad arian parod cyfnodol a gyflwynir yn ddiamod i bawb yn unigol, heb brawf modd na gofyniad i weithio.

**Cyfrifiad 'Gwell eich Byd'**

Wedi'i gynnig cyn y peilot a thrwy gydol y peilot i dderbynwyr cymwys er mwyn deall a fyddai'r unigolyn hwnnw'n 'well ei fyd' pe bai ar y peilot ai peidio. Fe ddylai hyn nid yn unig ystyried materion ariannol, ond hefyd cymorth ehangach y gallent fod â'r hawl i'w dderbyn neu beidio.

**Ymlwytho**

Mae ymlwytho yn ddull ailsamplu ystadegol sy'n amcangyfrif dosbarthiad samplu ystadegyn trwy samplu dro ar ôl tro gydag amnewidiad o'r set ddata wreiddiol.

**Cyngor ar Bopeth Cymru**

Rhwydwaith o elusennau annibynnol, seiliedig ar ardal sy'n cynnig cyngor annibynnol a diduedd am ddim i unrhyw un. Roedd y gwasanaeth yn gysylltiedig â datblygu'r gwasanaeth lles cymdeithasol i ddechrau, ac mae meysydd cymorth yn cynnwys: budd-daliadau, gwaith, dyled ac arian, hawliau defnyddwyr, tai, teulu, y gyfraith a llysoedd, mewnfudo ac iechyd. Darparodd y sefydliad gyngor ariannol a chymorth ychwanegol i dderbynwyr y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol i Bobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru trwy'r Gronfa Gynghori Sengl. Arferai'r sefydliad gael ei alw'n y Ganolfan Cyngor ar Bopeth ac yn aml cyfeirir ato fel CAB gan gyfranogwyr yn yr astudiaeth hon.

**Paru Data sydd wedi'i Anfanylu'n Llawn**

Mae paru data sydd wedi'i anfanylu'n llawn yn ddull ystadegol sy'n gwella casgliad achosol trwy greu grwpiau ymyrraeth a rheolydd cytbwys. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod unedau cyfatebol yn gymharol ar nodweddion allweddol, gan leihau tuedd a chynyddu pŵer ystadegol o'i gymharu â dulliau cyfatebu eraill.

**Dadansoddiad Canlyniadau a Chostau**

Mae dadansoddiad canlyniadau a chostau yn ddull gwerthuso economaidd sy'n cyflwyno costau a chanlyniadau ar wahân heb eu cyfuno yn un mesur o gosteffeithiolrwydd. Yn wahanol i ddulliau gwerthuso economaidd eraill sy'n syntheseiddio canlyniadau i gymarebau fel cost fesul blwyddyn bywyd wedi'i haddasu yn ôl ansawdd, mae dadansoddiad canlyniadau a chostau yn arddangos mesurau canlyniad lluosog ochr yn ochr â'r costau mewn fformat wedi'i ddadgyfuno, gan alluogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i bwyso a mesur y gwahanol ganlyniadau yn ôl eu gwerthoedd a'u blaenoriaethau eu hunain.

**Yr Adran Gwaith a Phensiynau**

Yr Adran Gwaith a Phensiynau yw adran llywodraeth y DU sy’n gyfrifol am les, pensiynau, a gwasanaethau cymorth cyflogaeth. Mae’r Adran Gwaith a Phensiynau yn cynnal data gweinyddol ar y rhai sy’n hawlio budd-daliadau, canlyniadau cyflogaeth ac ati.

**Dadansoddiad Gwahaniaeth-mewn-gwahaniaethau**

Mae dadansoddiad gwahaniaeth-mewn-gwahaniaethau yn ddyluniad ymchwil lled-arbrofol sy’n amcangyfrif effeithiau achosol trwy gymharu newidiadau mewn canlyniadau dros amser rhwng grwpiau ymyrraeth a grwpiau rheolydd. Mae’r dull yn dibynnu ar y dybiaeth o dueddiadau cyfochrog, sy’n ei gwneud yn ofynnol y byddai grwpiau ymyrraeth a grwpiau rheolydd wedi dilyn llwybrau tebyg yn absenoldeb yr ymyrraeth. Mae dadansoddiad gwahaniaeth-mewn-gwahaniaethau yn ddefnyddiol ar gyfer gwerthuso ymyriadau polisi pan nad yw treialon hapsamplu’n ymarferol.

**Anhwylder Gorbryder Cyffredinol-2**

Offeryn sgrinio gorbryder byr yw anhwylder gorbryder cyffredinol-2 sy’n cynnwys y ddwy eitem gyntaf o raddfa anhwylder gorbryder cyffredinol-7, gan fesur teimladau o nerfusrwydd/gorbryder a phryder na ellir ei reoli dros y pythefnos diwethaf. Caiff eitemau eu sgorio ar yr un raddfa pedwar pwynt â Holiadur Iechyd Cleifion-2, gyda sgoriau o dri neu uwch yn awgrymu anhwylderau gorbryder posibl sy’n gwarantu gwerthusiad pellach.

**Penaethiaid Gwasanaethau Plant**

Mae Penaethiaid Gwasanaethau Plant yn uwch-arweinwyr sy’n gyfrifol am wasanaethau plant mewn awdurdodau lleol. Maen nhw fel arfer yn gosod cyfeiriad strategol y gwasanaeth, ac yn darparu arweinyddiaeth, goruchwyliaeth, arweiniad a chefnogaeth i uwch reolwyr eraill.

**Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF)**

Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi yw awdurdod treth, taliadau a thollau’r Deyrnas Unedig. Dyma adran llywodraeth y Deyrnas Unedig sy’n gyfrifol am drin trethi a rheoleiddio yswiriant gwladol, ymhlith swyddogaethau ariannol eraill.

**Sgôr Mynegai Amddifadedd Incwm sy’n Effeithio ar Blant**

Mae sgôr y mynegai amddifadedd incwm sy’n effeithio ar blant yn mesur cyfran y plant rhwng 0 a 15 oed sy’n byw mewn teuluoedd sydd ag amddifadedd incwm o fewn ardal benodol, gan ffurfio rhan o fynegeion amddifadedd Lloegr. Mae sgoriau mynegai amddifadedd incwm sy'n effeithio ar blant uwch yn dynodi lefelau uwch o amddifadedd incwm ymhlith plant yn yr ardal honno, gan ei wneud yn ddangosydd allweddol ar gyfer targedu adnoddau a gwasanaethau cymorth.

**Mynegai Amddifadedd Incwm sy’n Effeithio ar Bobl Hŷn**

Mae’r mynegai amddifadedd incwm sy’n effeithio ar bobl hŷn yn mesur cyfran y bobl hŷn (60 oed a throsodd) sy’n profi amddifadedd incwm o fewn ardal benodol, sydd hefyd yn rhan o fynegeion amddifadedd Lloegr.

**Egwyddor Bwriad i Drin**

Mae’r egwyddor bwriad i drin yn ddull dadansoddol mewn ymchwil pan fo cyfranogwyr yn cael eu dadansoddi yn ôl y grŵp gwreiddiol y cafodd eu neilltuo iddo, waeth a ydynt wedi cael yr ymyrraeth a fwriadwyd neu wedi cwblhau’r astudiaeth mewn gwirionedd.

**Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR)**

Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru yw’r gronfa ddata weinyddol gynhwysfawr sy’n casglu gwybodaeth am yr holl ddysgu ôl-16 yng Nghymru, gan gwmpasu colegau addysg bellach, darparwyr dysgu seiliedig ar waith, dysgu cymunedol i oedolion, a sefydliadau addysg uwch.

**Awdurdod Lleol**

Mae 22 o awdurdodau lleol (cynghorau) yng Nghymru sy’n ffurfio haen llywodraeth leol etholedig Cymru. Maen nhw fel arfer yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant.

**Deilliannau Addysg Hydredol**

Mae’r set ddata deilliannau addysgol hydredol yn gronfa ddata weinyddol gynhwysfawr a grëwyd gan Adran Addysg y DU ac sy’n cysylltu cofnodion addysg unigolion â’u data sy’n ymwneud â chyflogaeth, budd-daliadau ac enillion. Mae deilliannau addysgol hydredol yn cysylltu gwybodaeth ar lefel unigolyn di-enw o wahanol gronfeydd data’r llywodraeth i greu darlun hydredol o ddeilliannau dros amser.

**Aelod o’r Senedd (AS)**

Mae Aelod o’r Senedd (AS) yn gynrychiolydd etholedig sy’n gwasanaethu yn Senedd Cymru. Disodlwyd ‘Aelod Cynulliad’ (AC) gan ‘Aelod o'r Senedd’ yn dilyn Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020, a ailenwodd Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn Senedd Cymru.

**Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI)**

Mae Ardaloedd Gynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) yn unedau daearyddol a ddefnyddir ar gyfer adroddiadau ystadegol yng Nghymru a Lloegr, sydd wedi'u cynllunio i gael maint poblogaeth cymharol debyg o oddeutu 1,500 o drigolion ar gyfartaledd. Mae ACEHIau yn cael eu hadeiladu o glystyrau o Ardaloedd Cynnyrch ac yn darparu fframwaith cyson ar gyfer dadansoddi a chymharu data economaidd-gymdeithasol ar draws gwahanol ardaloedd.

**Ar Goll ar Hap**

Mae ar goll ar hap yn dybiaeth ystadegol am ddata coll pan fo’r tebygolrwydd bod pwynt data ar goll yn dibynnu ar newidynnau yr arsylwyd arnynt yn unig, nid ar y gwerthoedd nas arsylwyd arnynt eu hunain.

**Ar Goll yn Llwyr ar Hap**

Mae ar goll yn llwyr ar hap yn dybiaeth ystadegol am ddata coll pan fo'r tebygolrwydd bod pwynt data ar goll yn gwbl annibynnol ar werthoedd data yr arsylwyd arnynt a gwerthoedd data nas arsylwyd arnynt.

**Priodoliad Lluosog gan Hafaliadau Cadwynog**

Mae priodoliad lluosog gan hafaliadau cadwynog yn dechneg ystadegol ar gyfer trin data coll sy'n creu setiau data cyflawn lluosog trwy fewnbynnu gwerthoedd coll yn ailadroddus yn seiliedig ar batrymau data yr arsylwyd arnynt.

**Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (y GIG)**

Gwasanaethau meddygol a gofal iechyd a ariennir gan y Llywodraeth y gall pawb yn y Deyrnas Unedig eu defnyddio heb ofyn iddynt dalu am gost lawn y gwasanaeth. Sefydlwyd y GIG yn rhan o ddiwygiadau cymdeithasol mawr yn dilyn yr Ail Ryfel Byd. Yr egwyddorion sylfaenol oedd y dylai gwasanaethau fod yn gynhwysfawr, yn gyffredinol, ac am ddim yn y man cyflwyno. Mae mwy nag un GIG yn y Deyrnas Unedig, sef GIG Cymru, GIG Lloegr a GIG yr Alban.

**Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion ar gyfer Lloegr**

Mae Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion ar gyfer Lloegr yn set ddata weinyddol gynhwysfawr a gynhelir gan yr Adran Addysg sy'n cynnwys gwybodaeth hydredol am bob disgybl mewn ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth yn Lloegr.

**Y Fframwaith Gwyddoniaeth Agored**

Mae'r Fframwaith Gwyddoniaeth Agored yn blatfform gwe a gynlluniwyd i gefnogi cydweithio ym myd ymchwil a hyrwyddo tryloywder ac atgynyrchioldeb mewn ymchwil wyddonol. Fe'i datblygir a'i cynhelir gan y Ganolfan Gwyddoniaeth Agored.

**Cynghorydd Personol / Cynghorydd Person Ifanc**

Ymarferydd sy'n gweithio'n uniongyrchol i gefnogi pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Mae Cynghorydd Personol yn gyfrifol am weithio gyda phobl ifanc sydd wedi gadael gofal yr awdurdod lleol (ac mae'n aml mewn cysylltiad â nhw cyn hyn er mwyn pontio mor ddidrafferth â phosibl o ddarpariaeth gweithiwr cymdeithasol). Mae Cynghorwyr Personol hefyd yn cyfrannu at gynlluniau llwybr a sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni'n gywir.

**Uned Adnoddau Gwasanaethau Cymdeithasol Personol**

Mae'r Uned Adnoddau Gwasanaethau Cymdeithasol Personol yn ganolfan ymchwil flaenllaw sy'n cynhyrchu amcangyfrifon blynyddol o gostau uned gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU.

**Holiadur Iechyd Cleifion-2**

Mae Holiadur Iechyd Cleifion-2 yn offeryn sgrinio ar gyfer iselder byr sy'n cynnwys y ddau gwestiwn cyntaf o'r Holiadur Iechyd Cleifion-9 hirach, sy'n gofyn cwestiynau ynghylch hwyliau isel ac anhedonia (colli diddordeb neu bleser) dros y pythefnos diwethaf. Defnyddir

Holiadur Iechyd Cleifion-2 yn helaeth mewn lleoliadau gofal sylfaenol ac ymchwil fel offeryn sgrinio cam cyntaf effeithlon ar gyfer anhwylder pruddglwyfus difrifol.

**Casgliad Disgyblion Ôl-16**

Mae casgliad disgyblion ôl-16 yn set ddata weinyddol sy'n casglu gwybodaeth am bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed mewn colegau addysg bellach, y chweched dosbarth, a darparwyr addysg ôl-16 eraill yn Lloegr.

**Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)**

Mae Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) yn cynnwys data ar lefel disgyblion unigol o bob ysgol a ariennir gan y wladwriaeth yng Nghymru a Lloegr yn flynyddol.

**Dylunio Lled-arbrofol**

Dyluniad ymchwil sy'n anelu at sefydlu cydberthnasau achosol trwy gymharu grwpiau neu amodau ond nad yw'n pennu cyfranogwyr ar hap fel sy'n wir am ddyluniadau arbrofol gwirioneddol. Mewn astudiaethau lled-arbrofol, mae ymchwilwyr yn gweithio gyda grwpiau sy'n digwydd yn naturiol neu'n defnyddio dulliau neilltuo nad ydynt ar hap i ddyrannu cyfranogwyr i wahanol amodau.

**Y Cyflog Byw Gwirioneddol**

Cyfradd incwm a gyfrifir yn annibynnol yn seiliedig ar yr hyn sydd ei angen ar bobl ar gyfer safon byw gweddus. Mae swm taliad y cynllun peilot, a gyfrifir yn flynyddol gan y Resolution Foundation ac a oruchwylir gan y Comisiwn Cyflog Byw, yn seiliedig ar y gyfradd ym mis Tachwedd 2021 am yr hyn sy'n gyfwerth ag wythnos waith 37 awr.

**Gwerthusiad Realaidd**

Dull o werthuso wedi'i seilio ar y rhagosodiad bod unrhyw ymyrraeth a luniwyd i ddatrys problem gymdeithasol yn dibynnu ar benderfyniadau dynol yn ogystal â ffactorau eraill er mwyn iddi weithio. Mae hyn yn golygu y gallai'r un ymyrraeth a weithredir mewn cyd-destun gwahanol weithio (neu beidio) trwy ddulliau gwahanol ac felly cynhyrchu canlyniadau gwahanol. Yn hytrach na phennu 'effaith gyffredin' polisi, mae gwerthusiadau realaidd yn ceisio esbonio beth sy'n gweithio, i bwy, ac ym mha amgylchiadau.

**Dadansoddiad Cost a Budd Cymdeithasol**

Mae dadansoddiad cost a budd cymdeithasol yn ddull gwerthuso economaidd a ddefnyddir i asesu effaith gyffredinol polisi, rhaglen neu ymyrraeth ar gymdeithas gyfan. Yn wahanol i ddadansoddiad cost a budd traddodiadol, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar gostau a buddion ariannol i'r sefydliad sy'n gweithredu, mae gan ddadansoddiad cost a budd cymdeithasol bersbectif cymdeithasol ehangach trwy ystyried yr holl gostau a buddion sy'n cronni i wahanol grwpiau yn y gymdeithas, gan gynnwys unigolion, teuluoedd, cymunedau a'r llywodraeth.

**Cronfa Dydd Gŵyl Dewi**

Cronfa a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017 i gefnogi pobl ifanc sydd mewn gofal awdurdodau lleol neu sydd wedi bod mewn gofal awdurdodau lleol. Mae’n rhan o’r Grant Plant a Chymunedau. Fe’i gweinyddir gan awdurdodau lleol ac fe'u hanogir i fod yn hyblyg a chreadigol wrth benderfynu sut i'w defnyddio i ddiwallu anghenion pobl ifanc orau yn yr un modd ag y gallai rhieni biolegol gefnogi eu plant yn ariannol.

**Gwallau Math I**

Mae gwallau Math I yn digwydd pan fydd prawf ystadegol yn gwrthod rhagdybiaeth nwl go iawn yn anghywir, gan ddod i’r casgliad bod effaith neu wahaniaeth yn bodoli pan nad yw mewn gwirionedd. Fe'i gelwir hefyd yn ganlyniad “cadarnhaol anghywir”.

**Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC)**

Mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Mae’n nodi ardaloedd sydd â’r crynodiadau uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd trwy restru pob un o’r 1,909 o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is yng Nghymru o 1 (yr amddifadedd mwyaf) i 1,909 (yr amddifadedd lleiaf).

# Cyflwyniad

Lansiwyd y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol i Bobl Ifanc sy’n Gadael Gofal yng Nghymru (y cyfeirir ato yma fel ‘y cynllun peilot’) ym mis Gorffennaf 2022 a rhoddwyd y taliadau cyntaf i’r derbynyddion ym mis Awst 2022 (Llywodraeth Cymru, 2022a). Dechreuodd y gwerthusiad o’r cynllun peilot ym mis Tachwedd 2022 ac mae dau adroddiad blynyddol a phrotocol i’r astudiaeth wedi’u cyhoeddi hyd yma (Holland ac eraill, 2024; Mathur ac eraill, 2025, a Westlake ac eraill, 2024).

Mae’r adroddiad hwn yn ddogfen dechnegol sy’n manylu ar y dulliau ystadegol penodol yr ydym yn bwriadu eu defnyddio i ddadansoddi’r ffynonellau data meintiol. Bydd y dadansoddiad hwn yn profi a yw’r cynllun peilot yn effeithiol wrth wella canlyniadau i gyfranogwyr ac yn gosteffeithiol o safbwynt y llywodraeth a chymdeithas ehangach. Bydd yr amcangyfrifon meintiol hyn o effeithiau yn cael eu hategu gan ystod eang o fewnwelediadau ansoddol o gyfweliadau a grwpiau ffocws â rhanddeiliaid allweddol, a nodiadau maes o gydran gweithredu a phrosesau’r astudiaeth. Mae rhywfaint o hyn eisoes wedi’i gyhoeddi yn yr adroddiadau gwerthuso blynyddol (2023 i 2024 a 2024 i 2025). Mae’r adroddiad hwn wedi’i gynllunio i ategu protocol yr astudiaeth (Westlake ac eraill, 2024) fel canllaw i’r astudiaeth a’r dulliau a ddefnyddiwyd. Fel y disgrifiwn yn fanylach isod, bwriedir i hyn gynyddu tryloywder ac atgynyrchioldeb y gwerthusiad a chydymffurfio â chanllawiau arfer gorau ar gyfer gwerthuso fel y nodir yn y Llyfr Magenta (Trysorlys EM, 2020).

## Trosolwg o’r cynllun peilot

Mae'r cynllun peilot yn unigryw mewn sawl ffordd, ac felly wedi denu llawer iawn o ddiddordeb o fewn y Deyrnas Unedig a ledled y byd. Nid oes cynllun o’r fath wedi rhoi taliadau rheolaidd mor sylweddol â’r rhai a gafodd eu derbyn gan bobl ifanc a oedd yn rhan o’r cynllun arbrofol hwn, ac nid oes unrhyw gynlluniau incwm sylfaenol eraill wedi bod yn agored i garfan genedlaethol o bobl sy’n gadael gofal o 18 oed yn derbyn taliadau am hyd at ddwy flynedd. Mae gan Lywodraeth Cymru ragor o wybodaeth am natur y cynllun peilot ond rydym yn disgrifio’r agweddau allweddol yn gryno yma.

Cyn i ni drafod ymarferoldeb pwy sy'n gymwys a sut mae'r taliadau incwm sylfaenol yn cael eu rhoi, mae'n werth nodi bod y cynllun peilot yn seiliedig ar bedair egwyddor allweddol. Disgrifiwyd y rhain gan y Gweinidog sy’n gyfrifol am y cynllun peilot, Jane Hutt AS, yn ei Datganiad Ysgrifenedig yn 2022 (Llywodraeth Cymru, 2022b):

- Ni ddylai cymryd rhan yn y cynllun peilot wneud unrhyw dderbynnydd yn waeth ei fyd.
- Ni ddylid gosod unrhyw amodau ar yr incwm a dderbynnir.
- Dylid talu'r un taliad i bawb.
- Ni fydd y taliad yn cael ei newid hanner ffordd drwy'r cynllun peilot.

Er mwyn bod yn gymwys, mae’n rhaid i berson ifanc fod yn ymadawr gofal Categori 3. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i berson ifanc fod wedi cael gofal gan un o’r 22 awdurdod lleol yng Nghymru am gyfnod o 13 wythnos o leiaf (neu gyfnodau lluosog sy’n cyfateb i o leiaf 13

wythnos), gan ddechrau ar ôl ei ben-blwydd yn 14 oed ac yn gorffen ar ôl iddo gyrraedd 16 oed. Wrth gofrestru, mae'n rhaid iddynt fod wedi preswylio yng Nghymru neu'n cael cymorth fel person sy'n gadael gofal gan adran gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol yng Nghymru ac yn byw yn rhywle arall.

I’r rhai a oedd yn bodloni’r meini prawf hyn, roedd gan y cynllun peilot gyfnod cofrestru yn para 12 mis, rhwng 1 Gorffennaf 2022 a 30 Mehefin 2023, ar gyfer pawb a gafodd ben-blwydd yn 18 oed yn ystod y cyfnod hwnnw. I’r rhai a gofrestrodd, dechreuodd y taliad y mis ar ôl eu pen-blwydd yn 18 oed a pharhaodd am 24 mis, ac eithrio i rai a gofrestrodd yn hwyr am resymau y tu hwnt i’w rheolaeth, ac a ddechreuodd felly gael taliadau yn fuan ar ôl y pwynt hwn. Nid yw’r rhai a dreuliodd amser yn y ddalfa yn ystod y cynllun peilot wedi derbyn taliadau ar gyfer 24 mis, gan fod taliadau’n cael eu hatal yn yr amgylchiadau hyn nes eu bod yn cael eu rhyddhau o’r ddalfa. Cyfanswm y taliad incwm sylfaenol yw £1,600 gros y mis, sy’n cael ei drethu o flaen llaw, fel bod y derbynyddion yn cael swm net o £1,280 bob mis. Bydd rhai derbynwyr yn gymwys i gael ad-daliad treth yn dibynnu ar incwm trethadwy arall, megis enillion o gyflogaeth. Gall derbynyddion yr incwm sylfaenol ddewis p’un a gaiff ei dalu mewn un trosglwyddiad misol o'r swm llawn, neu drosglwyddiadau dwywaith y mis o hanner y swm. Gallant hefyd ddewis cael costau tai eu talu o'r incwm sylfaenol yn uniongyrchol i'w landlordiaid. Pan ddatblygwyd y polisi, yn ystod 2021 a 2022, gosodwyd lefelau’r tâl i gyd-fynd yn fras â’r cyflog byw gwirioneddol (Cyflog Byw Cymru, 2023) ar gyfer gweithiwr llawnamser bryd hynny. Mae'r taliadau hyn yn ddiamod, yn unol â'r ail egwyddor a grybwyllwyd uchod, a chyda'r syniad y dylai derbynyddion fod yn rhydd i wneud eu dewisiadau bywyd eu hunain heb gael eu gorfodi i ddilyn llwybr penodol.

Yn ogystal â'r taliadau incwm sylfaenol bob mis, mae'r bobl ifanc dan sylw hefyd yn gymwys i gael cymorth ynglŷn â chyllidebu a rheoli cyllid yn rhan o'r cynllun peilot. Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, darperir hyn gan Gyngor ar Bopeth Cymru, ond mae rhai awdurdodau lleol yn darparu cyngor ariannol drwy ddulliau eraill. Cynlluniwyd yr elfen hon o’r cynllun peilot i gynnig cyngor ariannol a chymorth wedi’u teilwra i bobl ifanc unigol, gan gynnwys ‘cyfeirio a chymorth ychwanegol yn ymwneud â lles, addysg, gwaith, yn ogystal â chyngor ariannol ehangach’ (Llywodraeth Cymru, 2022a). Fel rhan o'r penderfyniad i gofrestru ar y cynllun peilot, roedd cyfrifiad 'Gwell eich Byd' dewisol ar gael i lywio'r penderfyniad hwn ac amcangyfrif p’un a fyddai'r incwm sylfaenol yn gyfystyr â chynnydd net yn incwm unigolyn ai peidio.

Nid oes unrhyw agweddau ar y cynllun peilot wedi’u bwriadu i effeithio ar gymhwysedd unigolyn sy'n gadael gofal ar gyfer ei wasanaethau arferol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r egwyddor gyntaf a grybwyllwyd uchod ac yn adlewyrchu awydd i ychwanegu at y cymorth sydd ar gael i bobl sy'n gadael gofal yn hytrach na disodli'r ddarpariaeth bresennol. Fel unigolion sy’n gadael gofal, maent yn gymwys i gael ystod o wasanaethau, gan gynnwys cymorth gan ‘gynghorydd person ifanc’ a ddyrannwyd, sy’n darparu cyngor a chymorth un-i-un ynglŷn ag agweddau amrywiol ar fywyd. Maen nhw hefyd wedi'u heithrio rhag talu’r dreth gyngor, yn gymwys ar gyfer bwrsariaethau addysg uwch a thaliadau costau byw, a gallant wneud cais am grantiau ariannol trwy Gronfa Dydd Gŵyl Dewi, sy'n cael ei gweinyddu gan awdurdodau lleol ochr yn ochr â mathau lleol o gymorth.

Mae’r cynllun peilot wedi bod yn boblogaidd, gyda 97% o’r bobl ifanc a oedd yn gymwys yn cymryd rhan (n= 644; Llywodraeth Cymru 2024).

Mae gan y cynllun peilot strwythur llywodraethu sy’n cynnwys grŵp llywio, grŵp gweithredol, grŵp cynghori ymchwil a gwerthuso, a grŵp cynghori technegol annibynnol. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys gweision sifil ac arbenigwyr annibynnol, a'u swyddogaeth yw rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar ddylunio a chyflwyno'r cynllun peilot. Yn ogystal, mae gan y gwerthusiad grŵp cynghori ar wahân, sy'n cynnwys arbenigwyr o wahanol feysydd astudio academaidd ac ymarfer proffesiynol.

## Trosolwg o'r gwerthusiad

Dechreuodd y gwerthusiad a gomisiynwyd ym mis Tachwedd 2022 a disgwylir iddo ddod i ben yn 2027. Mae sawl agwedd ar y cynllun peilot o fewn cwmpas y gwerthusiad, ac mae’r gwerthusiad cyffredinol yn defnyddio ystod o ddulliau meintiol ac ansoddol. Byddwn yn mesur ei effaith ar y gwahanol feysydd o fywydau derbynyddion y manylwn arnynt isod. Byddwn hefyd yn archwilio sut mae’r cynllun peilot yn cael ei weithredu, agweddau a phrofiadau’r rhanddeiliaid allweddol sy’n gysylltiedig, a chosteffeithiolrwydd y cynllun peilot o safbwynt y sector cyhoeddus a chymdeithas. Mae'r cwestiynau ymchwil canlynol yn ymdrin â'r agweddau gwahanol hyn ar y cynllun:

- Cwestiwn ymchwil 1: Beth yw effaith y cynllun peilot?
- Cwestiwn ymchwil 2: A yw'r cynllun peilot yn cael ei roi ar waith fel y bwriadwyd?
- Cwestiwn ymchwil 3: Sut brofiad yw'r cynllun peilot?
- Cwestiwn ymchwil 4: Sut mae’r cynllun peilot yn cyd-fynd â’r cynnig cyffredinol i bobl sy’n gadael gofal yng Nghymru?
- Cwestiwn ymchwil 5: Pa mor gost-effeithiol yw'r cynllun peilot?

Mae protocol yr astudiaeth a gyhoeddwyd (Westlake ac eraill, 2024) yn disgrifio ein dull o ateb y cwestiynau hyn yn fanylach. Mae hefyd yn cynnwys crynodeb helaethach o gefndir y cynllun peilot, trafodaeth o ymchwil flaenorol ar y pwnc, a'r heriau a'r cyfyngiadau a wynebwn wrth gynnal yr astudiaeth hon.

Mae'r gwerthusiad wedi'i gynllunio o amgylch pum maes craidd o'r enw 'pecynnau gwaith'. Crynhoir y rhain fel a ganlyn:

### Cyd-gynhyrchu

Mae cyd-gynhyrchu yn sail i'r astudiaeth ac mae dulliau cyfranogol yn bwydo i mewn i'r dylunio a'r casglu data. Mae grŵp o oedolion ifanc sydd â phrofiad o ofal, sy'n byw mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd addysgol, cyflogaeth a thai, yn cyfarfod yn rheolaidd i roi cyngor. Eu rôl yw cyd-greu cwestiynau ymchwil ac offerynnau casglu data, ystyried cwestiynau moesegol a dadansoddol a chynghori ar oblygiadau polisi ac ymarfer. Mae saith cyfarfod o'r fath wedi cael eu cynnal hyd yn hyn, yn cynnwys rhwng chwech a deg o bobl ifanc ym mhob cyfarfod, ac mae cyngor y grŵp wedi llywio penderfyniadau allweddol yn sylweddol. Mae enghreifftiau o newidiadau a phenderfyniadau a wnaed ar y cyd â'r grŵp hwn yn cynnwys pa fesurau arolwg i'w dewis, cwestiynau grŵp ffocws i gynghorwyr pobl ifanc a newid i'r

weithdrefn i ganiatáu i bobl ifanc gymryd rhan mewn cyfweliadau ansoddol mewn parau neu grwpiau bach, yn hytrach nag yn unigol yn unig, os ydynt eisiau.

## Gwella theori

Mae'r astudiaeth yn werthusiad seiliedig ar theori, ac mae'n defnyddio technegau a lywiwyd gan werthuso realaidd (Chen, 2014; Pawson, 2013; Pawson a Tilley, 1997). Mantais y dull hwn yw ei fod yn addo cipolwg ar sut a pham y gallai’r cynllun peilot gael yr effeithiau bwriadedig ar gyfer y gwahanol bobl sy’n gysylltiedig neu beidio.

## Gwerthuso effaith

Mae effaith y cynllun peilot yn cael ei mesur yn ôl sawl canlyniad, fel y gallwn weld ym mha ffyrdd a faint o effaith y mae'n ei chael ar gyfer y bobl ifanc dan sylw. Mae'r canlyniadau o ddiddordeb ar gyfer y cynllun peilot, a bennwyd ar y dechrau gan Lywodraeth Cymru, yn perthyn i’r categorïau canlynol:

(1) lles

(2) llythrennedd / diogelwch ariannol

(3) cydlyniant cymunedol / ymgysylltu

(4) effeithiau tlodi

(5) mynediad at farchnadoedd llafur ac addysg

(6) gwirfoddoli a sgiliau bywyd

(7) iechyd corfforol a meddyliol.

## Gweithredu a gwerthuso’r broses

Mae’r maes hwn yn canolbwyntio ar sut mae’r cynllun peilot yn cael ei weithredu, a’i ddarpariaeth barhaus, a sut mae’r cynllun peilot yn cael ei brofi a’i ystyried gan y rhai sy’n gysylltiedig. Mae’r dadansoddiad hwn hefyd yn archwilio sut mae'r cynllun peilot yn cyd-fynd â'r cynnig cyffredinol ar gyfer pobl sy'n gadael gofal yng Nghymru, gan gynnwys croestoriadau â gwasanaethau presennol. Cafodd elfennau ansoddol y pecyn gwaith hwn eu gwella a'u hymestyn yn 2023, pan ddaeth rhagor o arian ar gael. Mae hyn yn cynyddu cwmpas yr astudiaeth er mwyn deall profiad byw y bobl ifanc dan sylw.

## Gwerthusiad economaidd

Bydd y gwerthusiad economaidd yn ystyried p’un a yw'r cynllun peilot yn cynrychioli gwerth am arian o ran y canlyniadau a gyflawnwyd. Ei nod yw cyfuno costau a chanlyniadau'r cynllun peilot, er mwyn llywio dadansoddiad cost a budd cymdeithasol. Mae dadansoddiad cost a budd cymdeithasol yn estyniad o ddadansoddiad cost a budd, wedi’i addasu i ystyried y sbectrwm llawn o gostau a buddion (gan gynnwys effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol) y mae cymdeithas gyfan yn eu hwynebu o ganlyniad i ymyrraeth neu raglen. Bydd dadansoddiad canlyniadau a chostau ychwanegol yn edrych ar ystod o ganlyniadau

allweddol i archwilio llesiant pan fydd y data'n caniatáu, ac agweddau ar gyrhaeddiad addysgol, ymgysylltu â'r farchnad lafur, a sicrwydd ariannol.

Mae'r gwerthusiad yn cael ei lywio gan ymchwil arolygon. Mae Coram Voice, elusen hawliau plant, wedi cael ei gomisiynu ar wahân gan Lywodraeth Cymru i gasglu data arolwg gan gyfranogwyr y cynllun peilot a grŵp cymharydd (mwy o fanylion yn Adran 2).

Mae'n rhaid i'r holl ymchwil a wneir gan Brifysgol Caerdydd gael adolygiad moesegol. Ystyriwyd yr astudiaeth hon gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd ac fe'i cymeradwywyd ym mis Ionawr 2023 o dan y cyfeirnod SREC/323. Cymeradwywyd diwygiad, i gynnwys dulliau ansoddol ychwanegol, ar 20 Mehefin 2023. Cyn hynny, cafwyd cymeradwyaeth foesegol i Coram Voice weinyddu'r arolygon gwerthuso gan Brifysgol Rhydychen o dan y cyfeirnod CIA-22TT-149. Mae'r astudiaeth hefyd yn cael ei chynnal yn unol ag egwyddorion moesegol Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth.

## Nodau a chwmpas yr adroddiad hwn

Mae gwerthusiadau modern yn cyhoeddi eu cynlluniau dadansoddi yn fanwl fwyfwy (Ofosu a Posner, 2023). Mae hyn fel arfer yn digwydd cyn cwblhau'r gwaith o gasglu data a dechrau'r dadansoddiad. Y prif fanteision o gyhoeddi cynlluniau dadansoddi manwl yw tryloywder, y ffaith y gellir eu hatgynhyrchu, a hygrededd.

Mae tri chysyniad yn sail i'r hyn a ystyrir bellach yn gonglfeini tryloywder mewn gwyddorau cymdeithasol: (1) mynediad at ddata, (2) tryloywder 'cynhyrchu', a (3) tryloywder dadansoddol. Mae Elman ac eraill (2018) yn esbonio'r rhain fel a ganlyn:

> 'Mae mynediad at ddata yn cyfeirio at sicrhau bod y data y mae honiadau empirig mewn ymchwil gyhoeddedig yn seiliedig arno ar gael i eraill; mae tryloywder cynhyrchu yn awgrymu egluro'n glir yr agweddau mwyaf perthnasol ar y broses o gynhyrchu data; ac mae tryloywder dadansoddol yn golygu cyfleu'r prosesau a ddefnyddiwyd i ddadansoddi data i wneud honiadau a dod i gasgliadau' (tudalen 32).

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau bod data ar gael (lle bo hynny'n bosibl) ar ôl i'r gwerthusiad gael ei gwblhau. Mae protocol yr astudiaeth (Westlake ac eraill, 2024) yn rhoi cyfrif o gynllun cyffredinol yr astudiaeth a throsolwg o'r cynlluniau dadansoddi i wella tryloywder cynhyrchu. Mae'r adroddiad technegol hwn yn hyrwyddo tryloywder dadansoddol y gwerthusiad drwy ddarparu rhagor o fanylion ynghylch sut y cynhelir dadansoddiad o'r ffynonellau data meintiol.

Mae hyn yn bwysig oherwydd bod proffil y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol i Bobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru yn gwneud ymdrechion i'w ddyblygu yn debygol. Mae'r cynllun peilot wedi ennyn llawer iawn o ddiddordeb hyd yn hyn, yn y DU ac yn rhyngwladol, ac mae hyn yn debygol o gynyddu wrth iddo agosáu at ei ddiwedd. Gan mai dyma'r incwm sylfaenol mwyaf hael yn y byd hyd yn hyn, mae'n debyg y bydd ymchwilwyr eraill eisiau efelychu dulliau a chadarnhau canfyddiadau. Ym meysydd seicoleg a gwyddor ymddygiad, mae argyfwng atgynhyrchu adnabyddus, lle nad yw ymchwilwyr wedi gallu ailadrodd canfyddiadau ymchwil i wirio eu bod yn ddilys (Open Science Collaboration, 2015;

Ioannidis, 2005). Mae hyn yn cael ei ysgogi (yn rhannol) oherwydd nad yw cynlluniau dadansoddi yn cael eu rhagnodi ymlaen llaw ar gyfer gwerthusiadau nac yn cael eu cyhoeddi. Mae sefydliadau fel y Fframwaith Gwyddoniaeth Agored wedi'u sefydlu i fynd i'r afael â hyn a rhoi canllawiau i ymchwilwyr. Er enghraifft, mae'r Fframwaith Gwyddoniaeth Agored yn dweud:

> 'Dylai adrodd ar ddyluniad a dadansoddiad ymchwil sicrhau'r tryloywder mwyaf posibl ynghylch y broses ymchwil a lleihau'r potensial ar gyfer adrodd amwys neu anghyflawn ynghylch y fethodoleg' (Canolfan Gwyddoniaeth Agored, 2015).

Maent yn mynd ymlaen i awgrymu y dylai'r cyhoedd gael mynediad at gynlluniau dadansoddi llawn yn ogystal â phrotocolau astudiaethau (h.y. tryloywder dadansoddol yn ogystal â thryloywder cynhyrchu).

Mae argymhellion tebyg yn bodoli mewn disgyblaethau penodol. Er enghraifft, ym maes economeg iechyd, mae ymchwilwyr wedi datblygu rhestr wirio arfer gorau ar gyfer gwerthusiadau economaidd sy'n awgrymu y dylai ymchwilwyr "nodi a ddatblygwyd cynllun dadansoddi economaidd iechyd a ble mae ar gael" (Husereau ac eraill, 2022).

# Cynllun dadansoddi ystadegol ar gyfer dadansoddi effaith

## Cymariaethau lled-arbrofol

Fel y disgrifiwyd ym mhrotocol yr astudiaeth (Westlake ac eraill, 2024), byddwn yn defnyddio dyluniad lled-arbrofol i ddadansoddi effaith y cynllun peilot. Mae gwerthusiadau lled-arbrofol yn ceisio, yn absenoldeb hapsamplu, nodi effaith achosol un neu fwy o ymyriadau, yn bennaf trwy gymysgedd o ddewis samplau a dulliau ystadegol.

Mae'r dulliau hyn yn ceisio datrys yr hyn a elwir yn "broblem gwrthffeithiau coll". Hynny yw, gallwn arsylwi canlyniadau unigolion sy'n derbyn ymyrraeth (grŵp ymyrraeth), a gallwn arsylwi canlyniadau unigolion na chawsant ymyrraeth (grŵp cymharydd), ond nid y ddau. O ganlyniad, ni ellir priodoli unrhyw ganlyniad a welwn ar gyfer unigolyn sy'n cael yr ymyrraeth i effaith yr ymyrraeth – gallai fod wedi digwydd beth bynnag. Er mwyn gallu nodi effaith achosol, rhaid inni felly ddatrys y broblem gwrthffeithiau coll hon. Yn achos treial rheoledig ar hap, mae'r broses hon yn gymharol syml. Mae neilltuo cyfranogwyr ar hap i grŵp triniaeth neu grŵp rheolydd yn sicrhau, yn absenoldeb yr ymyrraeth, y byddai gan y ddau grŵp yr un gwerthoedd cyfartalog disgwyliedig o ran eu canlyniadau. Felly, gellir priodoli unrhyw wahaniaeth rhwng y ddau grŵp i effaith achosol yr ymyrraeth.

Yn yr achos hwn, ac mewn llawer o werthusiadau eraill o bolisïau cyhoeddus, nid yw hapsamplu yn opsiwn. Yn hytrach, rhaid inni ddod o hyd i ddewis arall lle gallwn wneud yr un honiad, sef, yn amodol ar ein dewis sampl a'n strategaeth ddadansoddol, nad ydym yn disgwyl gweld unrhyw wahaniaethau nad ydynt wedi'u rheoli rhwng y grwp ymyrraeth â'r grŵp cymharydd, ac felly gellir priodoli unrhyw wahaniaethau rhwng y ddau grŵp i'r ymyrraeth.

Nid yw hyn mor syml. Ni allwn, er enghraifft, gymharu canlyniadau pobl ifanc ar ddechrau'r ymyrraeth â'r rhai ar y diwedd – mae'n debygol y bydd eu profiadau yn ystod y ddwy flynedd hyn wedi llywio eu canlyniadau mewn sawl ffordd nad ydynt yn ymwneud â'r cynllun peilot. Ar ben hynny, ni allwn gymharu canlyniadau'r grŵp hwn â chanlyniadau pobl ifanc a adawodd ofal yn y gorffennol – mae'r garfan a oedd yn rhagflaenydd uniongyrchol y grŵp wedi profi amodau gwahanol yn y farchnad lafur oherwydd effeithiau pandemig COVID-19 a newidiadau diweddar o ran costau byw.

Ein datrysiad yw gwneud nifer o gymhariaethau gwahanol, pob un yn cymharu'r garfan o unigolion sy'n gadael gofal sydd wedi profi'r cynllun peilot â charfan o unigolion sy'n gadael gofal nad ydynt wedi gwneud hynny. Bydd y cymariaethau hyn yn defnyddio dau brif fath o ddata sy'n cwmpasu gwahanol fathau o ganlyniadau:

- Data hunanadroddedig o arolygon
- Data gweinyddol o gronfeydd data sy'n cael eu llunio'n rheolaidd

Y prif gymhariaeth ('A1' yn Nhabl 1 isod) fydd canlyniadau arolygon hunanadroddedig y grŵp o unigolion ifanc a dderbyniodd yr incwm sylfaenol (y grŵp ymyrraeth) â grŵp o unigolion sy'n gadael gofal yng Nghymru a drodd yn 18 oed y flwyddyn ganlynol (y grŵp cymharydd), gan eu gwneud yn anghymwys ar gyfer y cynllun peilot. Er mwyn cynyddu maint y sampl, rydym hefyd yn bwriadu ategu canlyniadau arolygon hunanadroddedig y grŵp cymharydd gyda data arolwg ychwanegol a gyflenwyd gan Coram Voice, sy'n cynnwys y rhai sy'n gadael gofal ac sy'n byw yn Lloegr ('A2' yn Nhabl 1). Yr ail gymhariaeth ('B' yn Nhabl 1) fydd data canlyniadau a gesglir yn rheolaidd sy'n rhan o setiau data deilliannau addysg hydredol, sydd ar gael ar gyfer Cymru a Lloegr. Yn y gymhariaeth hon, bydd y grŵp ymyrraeth yn cael ei gymharu ag unigolion sy'n gadael gofal yn Lloegr o'r un oedran sydd â nodweddion tebyg, nad oeddent yn gymwys ar gyfer y cynllun peilot oherwydd mai dim ond yng Nghymru yr oedd ar gael. Bydd hyn yn cynnwys dau ddull lled-arbrofol: parau data sydd wedi'i anfanylu'n llawn a gwahaniaeth mewn gwahaniaethau, fel y disgrifir isod.

Rydym yn manylu ar y cymariaethau hyn yn Nhabl 1 isod, ar ôl nodi'r ffynonellau data yr ydym yn bwriadu eu defnyddio.

# Ffynonellau data

Byddwn yn defnyddio dwy brif set ddata: arolwg a gynhaliwyd gan Coram Voice, a data gweinyddol a dynnwyd o'r setiau data deilliannau addysg hydredol.

## Data'r arolwg

Rydym wedi ein contractio i ddefnyddio data a gasglwyd gan Coram Voice, elusen hawliau plant a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i gasglu data arolwg gan gyfranogwyr y cynllun peilot incwm sylfaenol. Bydd arolygon yn cael eu cynnal gan Coram Voice ar gyfer y grŵp ymyrraeth a'r grŵp cymharydd ar ddau bwynt amser (Amser 1 (T1), tuag adeg pen-blwydd y cyfranogwyr yn 18 oed, i gyd-fynd â mynediad; ac Amser 2 (T2), tuag adeg pen-blwydd y cyfranogwyr yn 20 oed, i gyd-fynd ag ymadawiad). Dylid nodi bod y ddau gyfnod amser hyn

yn wahanol i bob cyfranogwr yn yr astudiaeth, oherwydd eu bod yn troi'n 18 oed ar wahanol adegau yn ystod y ffenestr ymrestru. Felly, bydd casglu data, yn ymarferol, yn digwydd yn barhaus yn ystod y cyfnod sy'n cael ei astudio.

Mae'r arolwg yn seiliedig ar arolwg sefydledig gan Coram Voice a ddefnyddir gyda phobl sy'n gadael gofal ledled y DU, o'r enw 'Your Life Beyond Care' (Briheim-Crookall ac eraill, 2020). Dechreuodd Coram Voice gasglu data yng Nghymru ym mis Hydref 2022, pedwar mis ar ôl i'r cynllun peilot ddechrau, ac i ddechrau dim ond y cwestiynau gwreiddiol a ddefnyddiwyd yn yr arolwg 'Your Life Beyond Care' oedd yn cael eu gofyn. Ym mis Ionawr 2023, rhyddhawyd arolwg wedi'i ddiweddaru gyda chwestiynau ychwanegol a oedd wedi'u cynllunio i gwmpasu'r ystod ehangach o ganlyniadau yn Nhabl 1. Ychwanegwyd y cwestiynau newydd o ganlyniad i drafodaethau rhwng y tîm gwerthuso, Llywodraeth Cymru a Coram Voice.

Ar ôl cytuno ar sawl newid i'r mecanwaith ar gyfer casglu data'r arolwg, ac ychwanegwyd cwestiynau, cynyddodd y cyfraddau ymateb, ac roedd y gyfradd ymateb derfynol yn 64% ar gyfer y grŵp ymyrraeth ar Amser 1. Mae Llywodraeth Cymru a Coram Voice yn derbyn cydsyniad ar sail gwybodaeth ar gyfer data'r arolwg.

Dylid nodi, yn absenoldeb digon o gyfatebiaethau o ansawdd o ddata'r arolwg, y gallwn hefyd gynnwys data o astudiaethau perthnasol eraill fel treial Cymorth Ariannol Ychwanegol i Bobl Ifanc sy'n Gadael Gofal(Sanders a Vallis, 2023) i allu mwyafu cymaroldeb y grŵp rheolydd.

## Data gweinyddol

Rydym yn bwriadu defnyddio'r setiau data deilliannau addysg hydredol sydd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru. Mae'r adnodd hwn yn cysylltu: data addysgol o Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion ar gyfer Lloegr, Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), casgliad disgyblion ôl-16 a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, data cyflogaeth ac enillion gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF) a'r Adran Gwaith a Phensiynau, cynnydd a llwyddiant mewn addysg bellach o'r Cofnod Dysgwr unigoledig (Adran Addysg), a dilyniant i addysg uwch gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch. Mae deilliannau addysg hydredol Lloegr hefyd yn cynnwys marcwyr ar gyfer profiad gofal cymdeithasol pobl ifanc, a fydd yn caniatáu inni nodi'r rhai sy'n gadael gofal yn Lloegr, tra bydd y grŵp ymyrraeth yn cael ei nodi o fewn deilliannau addysg hydredol Cymru gan ddefnyddio gwybodaeth ddemograffig gyfatebol am gyfranogwyr. Fel y manylir isod, byddwn yn ystyried, i ddechrau'r, holl ddata sydd ar gael sy'n ymwneud ag unigolion sy'n gadael gofal yng Nghymru a Lloegr, a byddwn yn defnyddio proses gyfatebu dau gam, i ddewis grŵp o unigolion sy'n gadael gofal yn Lloegr sydd (a) mewn awdurdodau lleol yn Lloegr sy'n gymaradwy â'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru a (b) y gellir eu cymharu ag unigolion sy'n gadael gofal yng Nghymru o fewn yr awdurdodau lleol hynny.

Bydd defnyddio data gweinyddol yn caniatáu inni gysylltu'r grŵp ymyrraeth â grŵp cymaradwy digon mawr o bobl ifanc o Loegr a oedd â phrofiad o fod mewn gofal yn ystod yr un cyfnod ag y digwyddodd yr ymyrraeth. Bydd hyn yn rhoi mwy o rym i'r dadansoddiad, gan gynyddu cywirdeb wrth ganiatáu i ystod ehangach o ganlyniadau gael eu harchwilio.

Bydd hefyd yn gwella casgliad achosol mewn perthynas â chyd-newidynnau amser-ddibynnol nas arsylwyd a allai fod wedi’u cydberthyn â’r canlyniadau o ddiddordeb ar adeg yr ymyrraeth, sef agwedd ar ddadansoddi nad yw’n bosibl trwy ddadansoddiad ar sail arolygon.

Bydd canlyniadau o fewn data gweinyddol yn cael eu halinio â gwahanol ganlyniadau sydd eisoes wedi'u harchwilio yn yr arolwg (gweler Tabl 2), gan ganiatáu felly ar gyfer casgliad cywir o ran effaith yr ymyrraeth. Ar gyfer canlyniadau nad ydynt wedi’u cynnwys yn yr arolwg, defnyddir dangosydd rhyngweithio deuaidd o ran a oedd y cyfranogwr mewn awdurdod lleol a fyddai’n ei wneud yn gymwys ar gyfer y taliadau incwm sylfaenol ar adeg yr ymyrraeth, er mwyn cofnodi effaith yr ymyrraeth.

Mae data gweinyddol arall hefyd ar gael gan Lywodraeth Cymru. Fe wnaethon nhw reoli’r gwaith o gofrestru pobl ifanc cymwys mewn cydweithrediad â’r 22 awdurdod lleol. Cwblhaodd pob derbynnydd ffurflen gofrestru ar ddechrau’r cynllun peilot. Mae’r ffurflenni cofrestru yn cynnwys ystod o ddata monitro, gan gynnwys rhywfaint o ddata hunangofnodedig am amgylchiadau iechyd yr unigolyn. Defnyddir ffurflen ymadael hefyd gan Lywodraeth Cymru i gasglu data ar ddiwedd y cynllun peilot. Datblygodd Llywodraeth Cymru gronfa ddata i gofnodi’r holl wybodaeth hon, ac mae’r data rheoli hwn wedi ffurfio sail datganiadau data Llywodraeth Cymru yn ystod y cynllun peilot (Llywodraeth Cymru, 2024).

Mae rhai eitemau o ddata a gasglwyd ar y cam cofrestru ar gyfer cyfranogwyr yn y grŵp ymyrraeth yn cael eu hychwanegu at arolygon a gwblhawyd gan gyfranogwyr yn y grŵp cymharydd (gan y byddai’r data hwn fel arall ar goll ar gyfer y grŵp hwn). Bydd Llywodraeth Cymru yn cael cydsyniad ar sail gwybodaeth i rannu data monitro â’r tîm gwerthuso.

**Tabl 1: Cymariaethau a ffynonellau data**

| **Label cymharu** | **Ymyrraeth** | **Cymharydd** | **Data** | **Paru** |
|---|---|---|---|---|
| A1 | Unigolion sy’n gadael gofal yng Nghymru a gofrestrodd ar y cynllun peilot ac a gwblhaodd arolygon | Unigolion sy’n gadael gofal yng Nghymru a drodd yn 18 oed ar ôl i’r cyfnod cofrestru ar gyfer y cynllun peilot ddod i ben (rhwng mis Gorffennaf 2023 a mis Medi 2024*) ac a gwblhaodd arolygon | Data arolwg hunanadroddedig | Dim |
| A2 | Unigolion sy’n gadael gofal yng Nghymru | Unigolion sy’n gadael gofal a gynhwysir uchod yng nghymhariaeth A1, ynghyd ag unigolion sy’n | Data arolwg hunanadroddedig | Paru data sydd wedi’i |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | a gofrestrodd ar y cynllun peilot ac a gwblhaodd arolygon | gadael gofal yn Lloegr a gwblhaodd arolwg tebyg a gynhaliwyd gan Coram Voice rhwng 2021-2024. | | anfanylu'n llawn |
| B | Unigolion sy'n gadael gofal yng Nghymru a gofrestrodd ar y cynllun peilot y mae data gweinyddol (deilliannau addysg hydredol) ar gael ar eu cyfer | Unigolion sy'n gadael gofal yn Lloegr sydd yr un oedran â'r garfan driniaeth, y mae data gweinyddol (deilliannau addysg hydredol) ar gael ar eu cyfer | Data gweinyddol sy'n cael ei gasglu a'i lunio'n rheolaidd o fewn deilliannau addysg hydredol | Paru data sydd wedi'i anfanylu'n llawn |

*Mae'r ffenestr ar gyfer y grŵp hwn yn fwriadol hirach na 12 mis er mwyn cynyddu maint y sampl.

## Mesurau canlyniadau

Fel y manylwyd ym mhrotocol yr astudiaeth (Westlake ac eraill, 2024), nododd Llywodraeth Cymru chwe maes canlyniad o ddiddordeb, ac mae'r llenyddiaeth yn awgrymu ei bod hefyd yn bwysig cynnwys canlyniadau iechyd corfforol a meddyliol yn ehangach. Mae'r meysydd canlyniad hyn o ddiddordeb, ac mae'r dulliau casglu drwy arolygon a chofnodion gweinyddol wedi'u hamlinellu yn Nhabl 2.

**Tabl 2: Canlyniadau a ffynonellau data**

| Parth canlyniadau | Casglwyd trwy | Mesurau penodol |
|---|---|---|
| Llesiant / llesiant seicolegol | Data'r arolwg | Dangosyddion categorïaidd o amlder cyflyrau emosiynol, lefel gorbryder, hapusrwydd, teimladau o bositifrwydd, gan gynnwys cwestiwn agored |
| Llythrennedd/diogelwch ariannol | Data'r arolwg | Cwestiynau yn ymwneud â lefelau ymdopi'n ariannol, dyrannu incwm, arferion gwario, a chwestiwn agored ynghylch reoli arian |
| Cydlyniant/ymgysylltu cymunedol | Data'r arolwg | Dangosyddion deuaidd o gyfeillgarwch, partneriaeth, bod yn berchen ar anifail anwes, cael unigolyn y gellir ymddiried ynddo, a dangosyddion categorïaidd o gymorth emosiynol.<br><br>Dangosyddion deuaidd o gydlyniant cymunedol mewn arolwg dilynol (T2) |
| Lleddfu effeithiau tlodi | Data arolygon a data gweinyddol | Dangosydd categorïaidd o dai cyfredol, dangosydd deuaidd o foddhad â'u tai<br><br>Hamdden a mynediad at eitemau moethus / y rhyngrwyd |

| | | |
|---|---|---|
| Mynediad i’r farchnad lafur / addysg / dysgu gydol oes | Data gweinyddol | Dangosydd deuaidd o gyflogaeth; mesur parhaus o enillion; dangosydd deuaidd o fod wedi cofrestru mewn addysg neu hyfforddiant; dangosydd deuaidd o gyfranogiad mewn addysg uwch; dangosydd deuaidd o gyfranogiad mewn addysg bellach.<br><br>Bydd y canlyniadau hyn yn cael eu hymestyn gan ddefnyddio data tymor hwy cysylltiedig o’r data deilliannau addysg hydredol. |
| Gwirfoddoli a sgiliau bywyd | Data’r arolwg | Addysg, cyflogaeth a hyfforddiant |
| Iechyd corfforol a meddyliol | Data arolygon a data gweinyddol | Iechyd cyffredinol hunanraddedig (cwestiwn y Swyddfa Ystadegau Gwladol)<br><br>Salwch cyfyngus hirdymor (cwestiwn y Swyddfa Ystadegau Gwladol)<br><br>Anhwylderau meddwl cyffredin: iselder (Holiadur Iechyd Cleifion-2) (Kroenke ac eraill, 2003); gorbryder (anhwylder gorbryder cyffredinol-2) (Spitzer ac eraill, 2006). |

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi nodi’r union effaith y maent yn disgwyl i’r cynllun peilot ei chael ar y canlyniadau hyn, er eu bod yn disgwyl iddo gael effeithiau cadarnhaol ar draws yr holl ganlyniadau hyn. Eu nod yw i’r polisi rymuso cyfranogwyr, rhoi mwy o allu a rheolaeth iddynt, a gwella eu bywydau. Mae’r llenyddiaeth ar incwm sylfaenol yn awgrymu na ddylem weld unrhyw effeithiau niweidiol yn unrhyw un o’r meysydd hyn, ac y byddai gwelliannau’n cael eu damcaniaethu mewn llawer o feysydd. Efallai y bydd rhai o’r gwelliannau hyn yn cymryd mwy o amser nag eraill i ddod i’r amlwg, sy’n golygu efallai na fydd rhai manteision yn ganfyddadwy yn ystod amserlen yr astudiaeth. Yn ein hadroddiad terfynol, byddwn yn cyhoeddi dadansoddiad o’r effeithiau a welwyd ar bob canlyniad yn Nhabl 2. Dewiswyd y

mesurau a ddyfynnwyd gan y tîm gwerthuso ac fe'u cymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru.

Gan ein bod bellach wedi nodi'r dull cyffredinol, gan gynnwys y cymariaethau penodol, y ffynonellau data, a'r canlyniadau o ddiddordeb, byddwn yn manylu ymhellach ar y dulliau o baru a'r dadansoddiad lled-arbrofol.

## Methodoleg baru: cyfatebu llawn garw

Ar gyfer cymariaethau A2 a B, mae angen nodi grŵp cymharydd addas o'r grŵp mwy o unigolion sy'n gadael gofal yn Lloegr y mae data ar gael ar eu cyfer. Mae hyn yn gofyn am broses o'r enw paru, lle caiff unigolion eu cyfateb yn seiliedig ar nodweddion penodol er mwyn creu grŵp cymharydd sydd mor debyg â phosibl i'r grŵp ymyrraeth, ac eithrio'r ffaith nad oeddent wedi cael yr ymyrraeth.

Gelwir y fethodoleg yr ydym yn bwriadu ei defnyddio ar gyfer hyn yn paru data sydd wedi'i anfanylu'n llawn (Iacus ac eraill, 2012). Mae'r dull hwn wedi'i leoli rhywle rhwng y ddwy ffurf eithafol o baru – paru data nad yw wedi'i anfanylu'n llawn, neu anfanylu'r data i'w eithaf rhesymegol o un ffigur – y Sgôr Tuedd (Rosenbaum a Rubin, 1983). O ran paru data sydd wedi'i anfanylu'n llawn, mae newidynnau cyfatebol yn cael eu cadw ond maent yn cael eu hanfanylu. Mae anfanylu data yn golygu ailddiffinio newidynnau yn ystodau. Er enghraifft, yn lle bod taldra cyfranogwr yn nifer union o gentimetrau, a allai fod yn anodd dod o hyd i gyfatebiaeth ar ei gyfer mewn samplau bach, gellid anfanylu hyn i uchderau mewn cyfyngau o ddeg centimetr. Drwy wneud hyn, mae cyfranogwyr yn parhau i gael eu paru ar werthoedd eu nodweddion arsylladwy, ond mae'r tebygolrwydd o baru o ran unrhyw newidyn neu set o newidynnau yn cynyddu. Mae gan y dull paru hwn y fantais o gynhyrchu mwy o barau na pharu'n llawn, wrth sicrhau hefyd fod unedau'n cael eu paru ar fesurau sy'n berthnasol i'r canlyniadau o ddiddordeb.

Ar gyfer y data gweinyddol, byddwn yn defnyddio paru ar ddwy lefel – yn gyntaf i baru awdurdodau lleol Cymru â'u cymheiriaid yn Lloegr, ac yn ail i baru'r rhai sy'n gadael gofal o fewn yr awdurdodau lleol hynny â'i gilydd. Ar gyfer data'r arolwg, byddwn yn defnyddio paru ar lefel yr unigolion sy'n gadael gofal.

## Strategaeth ddadansoddol: gwahaniaeth mewn gwahaniaethau

Mae dulliau gwahaniaeth mewn gwahaniaethau yn ddulliau lled-arbrofol sy'n cymharu'r gwahaniaethau rhwng unigolion yn y grwpiau ymyrraeth a chymharydd, ar ddechrau a diwedd polisi neu ymyrraeth newydd (Ffigur 1 isod). Mae'r gymhariaeth hon yn caniatáu creu rheolydd ar sail ddadansoddol am wahaniaethau sy'n sefydlog o ran amser (gwahaniaethau sy'n aros yr un fath dros amser), p'un a ydynt yn cael eu harsylwi ai peidio. Er bod cymharu dau grŵp nad ydynt wedi'u mesur ar yr un pryd (sy'n wir gyda chymhariaeth A1) yn weithrediad ansafonol o'r fethodoleg gwahaniaeth mewn gwahaniaethau, mae'r rhagdybiaethau sylfaenol yn aros yr un fath.

**Ffigur 1: Enghraifft o wahaniaeth mewn gwahaniaethau (a atgynhyrchwyd o Sanders ac eraill, 2023)**

Mae angen bodloni pum rhagdybiaeth er mwyn sicrhau dilysrwydd:

1. Dim endogenedd polisi
2. Tueddiadau cyffredin
3. Dim gorlifiadau
4. Unigrywiaeth
5. Cyfansoddiad grŵp sefydlog

## Dim endogenedd polisi

Ni all y penderfyniad i weithredu polisi penodol mewn lle penodol ar amser penodol fod wedi'i seilio ar unrhyw beth sy'n fewndarddol i effaith yr ymyrraeth. Mewn geiriau eraill, nid oedd angen i lunwyr polisi a ddewisodd gyflwyno'r ymyrraeth fod wedi gwneud hynny'n benodol oherwydd bod effaith driniaeth yr ymyrraeth yn uwch yn yr awdurdod lleol hwnnw nag mewn awdurdodau lleol eraill. O ystyried y byddwn yn paru ar lefelau a thueddiadau blaenorol mewn canlyniadau a nodweddion perthnasol, a'r gofyniad ar gyfer cael triniaeth yw "bod yng Nghymru", rydym yn dadlau bod yr amod hwn wedi'i fodloni.

## Tueddiadau cyffredin

Mae dadansoddiadau gwahaniaeth mewn gwahaniaethau yn caniatáu i unigolion fod yn wahanol yn eu lefelau sylfaenol o'r mesuriad canlyniad ond yn ei gwneud yn ofynnol bod gan ganlyniadau o fewn y grŵp ymyrraeth a'r grŵp cymharydd duedd i symud mewn ffordd sy'n gydberthynol. Yn ein dadansoddiad, byddwn yn ceisio gwirio a sicrhau bod y dybiaeth hon yn cael ei bodloni trwy archwilio tueddiadau'r canlyniadau cyn cyflwyno ymyrraeth, a thrwy baru tueddiadau blaenorol yn y mesuriad canlyniad.

## Dim gorlifiadau

Mae'r dybiaeth hon yn ei gwneud yn ofynnol, er enghraifft, nad yw cynnydd mewn cyflogaeth neu lesiant mewn un awdurdod lleol a dderbyniodd yr ymyrraeth yn arwain at gynnydd tebyg mewn awdurdod lleol arall sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion cymharu nad oedd wedi derbyn yr ymyrraeth. O ystyried y bwlch amserol rhwng yr awdurdodau lleol sy'n cael eu defnyddio at ddibenion cymharu a'r awdurdodau ymyrraeth yng Nghymru, a'r gwahaniaeth gofodol rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr, credwn fod y dybiaeth hon yn debygol o gael ei bodloni.

## Unigrywiaeth

Mae'r dybiaeth hon yn ei gwneud yn ofynnol mai'r unig newid mawr yn yr awdurdodau lleol a oedd yn rhan o'r cynllun peilot a ddigwyddodd ar adeg cyflwyno'r cynllun peilot oedd y

cynllun peilot ei hun (h.y. ni weithredwyd unrhyw ymyriadau tebyg chwaith). O ystyried natur gostus yr ymyrraeth incwm sylfaenol, a'i bod wedi'i chyflwyno drwy'r rhaglen a weinyddir yn genedlaethol, mae'r dybiaeth hon yn gyfiawnadwy.

## Cyfansoddiad grŵp sefydlog

Mae'r dybiaeth hon yn ei gwneud yn ofynnol nad yw unigolion sy'n cymryd rhan yn gallu symud o uned sydd wedi'i thrin i uned heb ei thrin, neu i'r gwrthwyneb, dros y cyfnod a gwmpesir gan y gwerthusiad. O ystyried y bydd canlyniadau'r grŵp cymharydd ar gyfer data arolwg hunanadroddedig yn cael eu hamcangyfrif y flwyddyn ganlynol, ac nad oes disgwyl i unrhyw bolisïau cymorth ariannol mawr ychwanegol gael eu gweithredu bryd hynny, bydd ein dadansoddiad yn bodloni'r dybiaeth o gyfansoddiad grŵp sefydlog. Mae'r un peth yn wir am y data gweinyddol, oherwydd ni weithredwyd unrhyw bolisïau cymorth ariannol mawr yn Lloegr ar adeg y cynllun peilot.

## Dewis sampl

Ar gyfer cymhariaeth B, gan ddefnyddio data gweinyddol (deilliannau addysg hydredol), byddwn yn defnyddio dadansoddiad gwahaniaeth mewn gwahaniaethau wedi'i baru, pan fydd awdurdodau lleol yn gyntaf, ac wedi hynny unigolion posibl sy'n gadael gofal, yn cael eu paru'n ystadegol ar sail eu nodweddion arsylladwy, ac yna defnyddir cymariaethau dros amser o wahanol unigolion sy'n gadael gofal o fewn yr un awdurdodau i reoli'n ystadegol ar gyfer nodweddion sy'n sefydlog dros amser yr awdurdod lleol.

Gan fod y cynllun peilot yn gyffredinol ar gyfer yr unigolion sy'n gadael gofal ac sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar draws 22 awdurdod lleol Cymru, ar gyfer dadansoddiad yr arolwg, rhaid inni ddefnyddio paru ar lefel unigol yn unig rhwng yr unigolion sy'n gadael gofal yng Nghymru yn T1 a'u cyfoedion y flwyddyn ganlynol yn T2. Nid ydym yn cynnig manylion paru ar hyn o bryd ar gyfer yr arolwg, gan fod yn rhaid i ni aros i gael data cymharu yn T2 er mwyn cyflawni hyn.

Yn y fanyleb werthuso, cynghorodd Llywodraeth Cymru y disgwylid i tua 550 o unigolion ifanc ddod yn gymwys ar gyfer yr ymyrraeth yn ystod y cyfnod cofrestru (yn seiliedig ar amcangyfrifon awdurdodau lleol), felly mae ein cyfrifiadau yn seiliedig ar yr amcangyfrif hwn (er bod mwy o unigolion ifanc mewn gwirionedd yn gymwys ac wedi cofrestru). Er bod cyfrifiadau pŵer *ex ante* o ddyluniadau lled-arbrofol cymhleth yn anodd cyfrifo'n gywir, rydym yn rhagweld gallu canfod effeithiau ar ganlyniadau data arolygon hunanadroddedig o ddim mwy na 0.2 gwyriad safonol (a gyfrifir trwy Ddelta Glass), ac ar gyfer effeithiau dim mwy na 0.12 gwyriad safonol ar gyfer y data gweinyddol, yn seiliedig ar ein profiad gyda phrosiectau tebyg eraill. Mae'r meintiau effaith hyn ymhell i fewn yr ystod o effeithiau bach, gan ganiatáu inni lunio darlun clir o effeithiau incwm sylfaenol. Fodd bynnag, dylid nodi bod maint bach y sampl yn ei gwneud yn anodd cynnal dadansoddiad is-grŵp yn ddibynadwy, yn enwedig ar gyfer unrhyw grŵp sydd mewn lleiafrif ymhlith cyfranogwyr cymwys.

## Paru ar lefel awdurdod lleol

Fel y disgrifiwyd uchod, rydym yn defnyddio paru data sydd wedi'i anfanylu'n llawn ac ar hyn o bryd rydym wedi cynnal ymarfer cychwynnol wrth baru awdurdodau lleol ar gyfer cymhariaeth B. Roedd hyn yn gofyn am wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am oedran, sail gyfreithiol, rhywedd, a nifer yr unigolion sy'n gadael gofal mewn awdurdodau lleol yng Nghymru o 2018 i 2022, gyda phanel ar lefel awdurdod lleol / blwyddyn. Yna defnyddiwyd y panel hwn i nodi newidynnau sy'n cofnodi'r gyfradd newid yn y plant mewn gofal o fewn pob awdurdod lleol yng Nghymru. Fe wnaethom hefyd gyrchu data ar fynegeion amddifadedd lluosog ar gyfer Cymru (MALIC – Llywodraeth Cymru, 2019), gan ganolbwyntio'n benodol ar y mynegeion ar gyfer cyflogaeth, incwm ac amddifadedd plentyndod ar lefel ardal gynnyrch ehangach haen is, sydd wedi hynny'n cael ei gwympo i roi cyfartaledd lefel awdurdod lleol ar gyfer pob sgôr ar gyfer pob awdurdod lleol haen uchaf (mae'r awdurdodau lleol hyn yn gwasanaethu fel unedau haen uchaf sy'n gyfrifol am wasanaethau plant yn Lloegr, sy'n cyfateb i awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae hyn yn ei dro yn cael ei baru â'r set ddata panel a grëwyd yn flaenorol.

Gan ddefnyddio'r data hwn, gwnaethom weithredu paru data sydd wedi'i anfanylu'n llawn yn ailadroddus i gyrraedd sampl cymharydd. Mae hyn yn golygu defnyddio'r gorchymyn paru data sydd wedi'i anfanylu'n llawn yn fersiwn 16 Stata (StataCorp, 2019), ac mae anfanylu yn dilyn Algorithm Scott. Mae'r algorithm hwn yn fwy ceidwadol o ran ei anfanylu na rhai algorithmau eraill, ond mae ganddo'r fantais o leihau graddau rhyddid ymchwilwyr, lleihau'r risg o ganlyniadau cadarnhaol anghywir, a gwneud dyblygu'n haws.

Ar gyfer cymhariaeth B, roedd ein hymgais gychwynnol i baru yn cynnwys newidynnau ar draws awdurdodau lleol Cymru a Lloegr ar gyfer: cyfraddau newid blynyddol yn niferoedd yr unigolion sy'n derbyn gofal yn yr awdurdod lleol ar gyfer pob un o'r pedair blynedd diwethaf, sgoriau amddifadedd incwm, sgoriau amddifadedd cyflogaeth, a sgoriau amddifadedd a brofir gan blant (Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, 2019). Fodd bynnag, o ystyried ceidwadaeth y dull paru, mae'r set hon o newidynnau yn cynhyrchu cymharol ychydig o barau (mae chwe awdurdod lleol yng Nghymru yn dod o hyd i barau). Gan nad yw hyn yn ddigon, fe wnaethom leihau nifer y newidynnau a ddefnyddiwyd wrth baru yn ailadroddus i benderfynu pa gyfuniad o newidynnau, wedi'u hanfanylu yn y modd hwn, sy'n dod o hyd i barau ar gyfer cyfrannau mwy o awdurdodau lleol Cymru heb leihau ansawdd y paru.

Wrth baru gan ddefnyddio sgoriau incwm, sgôr y mynegai amddifadedd incwm sy'n effeithio ar blant a sgôr y mynegai amddifadedd incwm sy'n effeithio ar bobl hŷn, rydym yn nodi 41 achos o baru ar gyfer 21 o awdurdodau lleol Cymru. Mae defnyddio sgôr cyflogaeth yn lle sgôr y mynegai amddifadedd incwm sy'n effeithio ar bobl hŷn yn cynhyrchu 29 achos o baru ar gyfer 18 o awdurdodau lleol Cymru. Mae gostwng hyn i ddim ond sgoriau incwm a sgoriau'r mynegai amddifadedd incwm sy'n effeithio ar blant yn arwain at 71 achos o baru i bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. O ystyried yr angen am rywfaint o benodoldeb o ran achosion o baru (mae mwy na hanner yr awdurdodau lleol sydd ar gael ar gyfer paru wedi'u paru yn yr ail fodel), y dull cyntaf neu'r ail, sy'n nodi achosion o baru ar gyfer 21/18 o awdurdodau lleol Cymru, sy'n cael eu ffafrio ar hyn o bryd.

## Cydbwysedd ôl-baru

Er mwyn cyflawni achosion o baru, bu'n rhaid i ni leihau nifer y newidynnau sydd wedi'u cynnwys yn y broses baru. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i sawl ffactor:

- prin yw'r awdurdodau lleol yn y ddau grŵp
- mae graddau cyfuno yn gwneud paru yn fwy heriol i'w gyflawni
- mae'r newidynnau a ddefnyddir wrth baru yn naturiol barhaus ac yn cynnwys llawer o werthoedd manwl
- rydym yn defnyddio dull anfanylu ceidwadol

A'r achosion o baru wedi'u nodi gennym, mae angen felly i ni gynnal gwiriadau cydbwysedd hefyd i benderfynu a yw'r gwahaniaeth mewn newidynnau eraill, yr oedd paru wedi'i fwriadu ar eu cyfer, yn amrywio rhwng yr awdurdodau lleol yn y grŵp ymyrraeth a'r grŵp cymharydd ar ôl y broses baru.

Ar gyfer ein dau fodel posibl, rydym yn profi cydbwysedd rhwng grwpiau ar dueddiadau mewn niferoedd gofal, ac unrhyw sgoriau a gafodd eu hepgor. Rydym yn canfod bod ein hail fodel, sy'n cynnwys cyflogaeth yn hytrach na'r mynegai amddifadedd incwm sy'n effeithio ar bobl hŷn, yn creu sampl fwy cytbwys yn gyffredinol, ac eithrio mewn perthynas â'r mynegai amddifadedd incwm sy'n effeithio ar bobl hŷn, sy'n sylweddol anghytbwys.

Serch hynny, ein model a ffefrir ar hyn o bryd yw'r ail fodel, sy'n paru 18 o awdurdodau lleol Cymru â 29 o awdurdodau lleol Lloegr (Atodiad A). Byddwn yn gweithio i ehangu'r gyfatebiaeth i 22 o awdurdodau lleol drwy wahanu'r pedwar awdurdod yng Nghymru sy'n weddill a chymryd dull gwahanol o baru'r rhain.

## Manyleb ddadansoddol: data'r arolwg

Bydd ein strategaeth ddadansoddol ar gyfer data'r arolwg yn dilyn dull gwahaniaeth mewn gwahaniaethau cyfatebol, gyda pharu'n digwydd cyn dadansoddi er mwyn dewis y sampl fwyaf priodol. Y strategaeth gwahaniaeth mewn gwahaniaethau ar gyfer y data hwn fydd cymryd y cyfnod amser cyntaf (T1) fel data arolwg sylfaenol ar gyfer y grwpiau ymyrraeth a chymharydd, a defnyddio data'r arolwg terfynol (T2) fel yr ail gyfnod amser.

## Dadansoddiad cynradd

Cynhelir manyleb ein dadansoddiad cynradd gan ddefnyddio atchweliadau modelau rhagfynegi llinol / sgwariau lleiaf cyffredin, a nodir fel:

$$Y_{ilT2} = a + b_1 Y_{ilT1} + b_2 B_l + \Gamma_1 X_i + \Gamma_2 L_l + e_l$$

Pan $Y_{ilT2}$ fydd mesuriad y deilliant unigolyn $i$ mewn awdurdod lleol $l$ yn amser T2, $a$ yw'r atchweliad cyson, $Y_{ilT1}$ yw gwerth ynysedig mesuriad deilliant y cyfranogwr (sgôr y waelodlin) yn T1 a $b_1$ yw amcangyfrif ei gyfernod, dangosydd deuaidd yw $B_l$ parthed a oedd y cyfranogwr yn gymwys ar gyfer y taliadau incwm sylfaenol, wedi'i osod i 1 os yw'n gymwys a 0 fel arall (sy'n cyfateb i ddangosydd deuaidd am fod yn 18 oed yng Nghymru ar amser T1) gydag$b_2$ amcangyfrif ei gyfernod(effaith y driniaeth). Mae $X_i$ yn fector o nodweddion

lefel y cyfranogwr, ac mae $\Gamma_1$ yn fector o gyfernodau, yn yr un ffordd fector o nodweddion lefel awdurdodau lleol yw $L_l$, gan gynnwys y rheiny a ddefnyddir wrth baru, a $\Gamma_2$ ei fector cyfernodau, a $e_l$ yn derm gwall a glystyrir ar lefel yr awdurdod lleol. Cyfernodau yw'r ffigurau eraill yn yr hafaliad.

## Data T2 yn unig

Dim ond yn T2 y caiff rhai newidynnau yn yr arolwg eu casglu, ac nid yn T1. Ar gyfer y newidynnau hyn, byddwn yn mabwysiadu dull llai nodweddiadol ac yn disodli $Y_{ilT2}$ â fector o newidynnau sylfaenol sy'n rhagfynegwyr cryfaf y grŵp rheolydd o'r canlyniad yn T2.

## Dadansoddiad eilaidd

Bydd dadansoddiad eilaidd yn dilyn yr un fanyleb atchweliad â'n dadansoddiad cynradd ond yn disodli'r newidyn $Y$ â'r canlyniadau eilaidd perthnasol.

## Priodoliad

Bydd archwilio'r patrwm data coll yn rhoi rhywfaint o fewnwelediad cychwynnol i'r math o ddiffyg, a bydd profion ystadegol yn helpu ymhellach i asesu a yw'r mecanwaith data coll yn ar goll yn llwyr ar hap neu'n ar goll ar hap. Byddwn yn defnyddio prawf ar goll yn llwyr ar hap Little (Little, 1988), sy'n penderfynu a yw'r diffyg yn gysylltiedig â'r data a arsylwyd neu'r data nas arsylwyd. Byddwn hefyd yn defnyddio model atchweliad logistaidd gyda dangosydd o ddiffyg fel y canlyniad, a fydd yn dangos a yw cyd-newidynnau perthnasol yn rhagfynegol o'r diffyg, gan bwyntio at debygolrwydd tybiaeth ar goll ar hap.

Oherwydd natur casglu data arolwg, a'r defnydd o rai cwestiynau dewisol, rydym yn rhagweld data coll ar gyfer rhai cyfranogwyr. Ni fyddwn yn gwneud defnydd o briodoliad ar gyfer mesurau canlyniadau gan fod hyn yn arwain at risgiau sylweddol o ran tuedd. Ar gyfer data coll ar y llinell sylfaen (T1), byddwn yn defnyddio cymysgedd o briodoliad lluosog gan hafaliadau cadwynog (White ac eraill, 2011), pan ddefnyddir data llinell sylfaen neu ddemograffig sydd ar gael ar gyfer y cyfranogwr mewn dadansoddiadau atchweliad i gyfrifo gwerthoedd tebygol y newidyn coll. Mae priodoliad lluosog yn osgoi'r risgiau o or-ffitio neu gywirdeb ffug trwy amcangyfrif y gwerthoedd priodoledig sawl gwaith, trwy ailgyflwyno i'r amcangyfrifon model yr amrywioldeb sy'n deillio o natur ragfynegol gwerthoedd priodoledig. Pe bai dim ond un set ddata yn cael ei defnyddio yn lle hynny, byddem yn trin gwerthoedd priodoledig fel data a arsylwyd yn effeithiol, heb ystyried yn briodol yr amrywiannau yn yr amcangyfrifon yn ein model sy'n deillio o'r ffaith bod ein gwerthoedd priodoledig yn rhagfynegiadau, a fyddai'n arwain at wallau math I. Pan nad yw priodoliad lluosog gan hafaliadau cadwynog yn bosibl oherwydd diffyg llwyr data sylfaenol neu ddemograffig, byddwn yn defnyddio priodoliad nwl, pan fydd gwerthoedd coll yn cael eu priodoli fel 0 ac mae dangosydd deuaidd ar gyfer diffyg yn cael ei greu.

## Gwiriadau cadernid

Byddwn yn gwirio cadernid ein dadansoddiadau drwy wneud y canlynol:

- defnyddio priodoliadau nwl yn gyffredinol, pan nad yw priodoliad lluosog gan hafaliadau cadwynog yn bosibl
- cynnal dadansoddiad achos cyflawn
- defnyddio atchweliad logistaidd a phrobid ar gyfer canlyniadau deuaidd

## Manyleb ddadansoddol: data gweinyddol

Bydd ein strategaeth ddadansoddol ar gyfer data gweinyddol yn wahanol i'r un a ddefnyddir ar gyfer data'r arolwg mewn ychydig o ffyrdd pwysig. Bydd cofnodion gweinyddol yn cynnwys data sylfaenol cyfoethocach ar nodweddion a chefndiroedd cyfranogwyr. Ni fydd cofnodion yn cynnwys data coll gyda'r un amlder â data'r arolwg. Ar ben hynny, mae data o ffynonellau gweinyddol ar gael ar gyfer carfanau ychwanegol. O ganlyniad i'r ffactorau hyn, mae ein strategaeth ddadansoddol ar gyfer data gweinyddol yn wahanol i'r un a ddefnyddir ar gyfer data'r arolwg yn y ffyrdd canlynol.

## Priodoliad

Yn y dadansoddiad hwn, rydym yn cymryd dull gwahanol o briodoli. Ar gyfer canlyniadau, byddwn yn defnyddio data achos cyflawn yn unig – hynny yw, pan fydd gan gyfranogwr wybodaeth gyflawn am ei ganlyniadau. Pan fydd cyfranogwyr yn brin o ddata ar nodweddion sylfaenol neu ddemograffeg, bydd hyn yn llawer mwy cyfyngedig yn achos y data gweinyddol. O ganlyniad, byddwn yn defnyddio priodoliad nwl ar gyfer y nifer fach hyn o arsylwadau, pan fydd y gwerthoedd yn cael eu priodoli fel 0 a chreuir dangosydd deuaidd sy'n cael ei osod i 1 os yw gwerth y newidyn hwnnw ar goll a 0 os yw'n bresennol. Mae hyn yn llai soffistigedig na'r dull priodoliad lluosog gan hafaliadau cadwynog a ddefnyddir ar gyfer data'r arolwg, ond mae hefyd yn gofyn am lai o dybiaethau i'w fodloni.

## Carfanau ychwanegol

Byddwn yn defnyddio dwy garfan ychwanegol yn ein dadansoddiad data terfynol:

- pobl ifanc sydd wedi gadael gofal yn y 12 mis cyn lansio'r cynllun peilot – o fis Gorffennaf 2021 i fis Mehefin 2022
- pobl ifanc sy'n gadael gofal yn y 12 mis ar ôl carfan y cynllun peilot – o fis Gorffennaf 2023 i fis Mehefin 2024 (yr un grŵp a ddefnyddiwyd fel y grŵp cymharu yng nghymhariaeth A1)

## Gwahaniaeth mewn gwahaniaethau gwrthffeithiol

Yn y dadansoddiad data gweinyddol, nid y data sylfaenol ar gyfer y grŵp ymyrraeth fydd y data gwrthffeithiol y byddwn yn ei ddefnyddio, ond data paru cyfnod amser ar gyfer y grwpiau cymharydd, gan ddefnyddio data sylfaenol fel newidynnau rheolydd.

Byddwn yn dadansoddi mesurau canlyniadau o ddata gweinyddol (a nodwyd yn yr adran uchod ar fesurau canlyniadau). Byddwn yn defnyddio modelau rhagfynegi llinol / sgwariau lleiaf cyffredin ar gyfer ein dadansoddiadau er mwyn cynyddu faint y gellir eu dehongli i'r

eithaf, wrth gynnal gwiriadau cadernid fel y nodwyd yn adran 2.0. Ein prif fanyleb atchweliad fydd:

$$Y_{ilT2} = a + b_1 W_l + b_2 T_{T1} + b_3 (W_l \cdot T_{T1}) + \Gamma_1 X_i + e_{lT1}$$

Pan $Y_{ilT2}$ fydd yn fesuriad canlyniad ar gyfer unigolyn $i$ yn yr awdurdod lleol $I$ yn amser T2, mae $a$ yn gysonyn atchweliad, mae $W_l$ yn ddangosydd deuaidd bod awdurdod lleol yng Nghymru, mae $T_{T1}$ yn ddangosydd deuaidd o'r cyfnod triniaeth, wedi'i osod i 1 ar gyfer yr amser triniaeth a 0 fel arall, ac mae $(W_l \cdot T_{T1})$ yn derm rhyngweithio rhwng bod yng Nghymru a bod yn y cyfnod triniaeth, gan gymryd gwerth o 1 ar gyfer y garfan o bobl ifanc a gafodd driniaeth a 0 fel arall. Y cyfernod ar y newidyn hwn yw ein cyfernod o ddiddordeb. Mae $X_i$ yn fector o nodweddion unigol ac mae $e_{lT1}$ yn derm gwall wedi'i glystyru ar lefel awdurdod lleol / amser.

## Dadansoddiad eilaidd

Bydd ein strategaeth ddadansoddol ar gyfer ein canlyniadau eilaidd yn dilyn yr un fanyleb â'n canlyniadau cynradd, gan ddisodli $Y_{ilT2}$ â'r newidynnau perthnasol.

## Gwiriadau cadernid

Yn olaf, byddwn yn cynnal nifer o wiriadau i sicrhau cadernid ein canfyddiadau. Bydd y rhain yn cynnwys:

- defnyddio priodoliad lluosog gan hafaliadau cadwynog yn lle priodoliad nwl
- defnyddio gwahaniaethau triphlyg, gan gynnwys unigolion nad ydynt yn gadael gofal yn yr un parau awdurdod lleol / cyfnod amser i greu rheolydd ymhellach ar gyfer amrywiad lleol a gwyriad tueddiadau
- defnyddio atchweliad logistaidd a phrobid ar gyfer canlyniadau deuaidd
- dadansoddiadau plasebo

# Cynllun dadansoddi ystadegol ar gyfer dadansoddi economaidd

## Cyflwyniad

Yn ogystal ag amcangyfrif yr effeithiau ar ystod o ganlyniadau, mae'r astudiaeth yn bwriadu cyfrifo manteision economaidd neu gostau y cynllun peilot. Mae'r cynllun dadansoddi economaidd hwn yn nodi'r dull a gynlluniwyd tuag at y dadansoddiad cost a budd ac mae'n cyd-fynd â'r canllawiau cyfredol ar gyfer cynlluniau dadansoddi economaidd (Thorn ac eraill, 2021).

## Rhesymeg ar gyfer y gwerthusiad economaidd

Mae gwerthusiadau economaidd yn ystyried defnydd adnoddau, costau, a manteision ymyrraeth polisi ar yr un pryd. Maent yn werthfawr ar gyfer llywio penderfyniadau o ran dyrannu adnoddau ar gyfer ymyriadau iechyd a gofal cymdeithasol. Diben y gwerthusiad economaidd hwn, fel y'i penderfynwyd gan y tîm ymchwil, fydd ystyried a yw'r cynllun peilot yn cynrychioli gwerth am arian o ran y canlyniadau a gyflawnwyd. Ei nod yw nodi, mesur a gwerthfawrogi costau a chanlyniadau'r cynllun peilot, a syntheseiddio'r dystiolaeth i lywio dadansoddiad cost a budd cymdeithasol.

Yn ogystal, argymhellir dadansoddiadau cost a chanlyniadau ar gyfer ymyriadau cymhleth a allai fod â goblygiadau lluosog (Drummond ac eraill, 2005), ac ar gyfer ymyriadau iechyd cyhoeddus a allai fod â llu o fuddion sy'n anodd eu syntheseiddio mewn uned gyffredin. Maent yn cyflwyno costau a chanlyniadau wedi'u dadgyfuno (goblygiadau cynradd ac eilaidd), ynghyd ag amcangyfrifon o'r costau cymedrig sy'n gysylltiedig ag ymyriadau'r cymharydd gyda mesurau gwasgaru priodol. Bydd y dadansoddiad cost a chanlyniadau yn archwilio ystod o ganlyniadau allweddol i archwilio llesiant pan fo'r data'n caniatáu, ac agweddau ar gyrhaeddiad addysgol, ymgysylltu â'r farchnad lafur a sicrwydd ariannol.

### Amcanion ymchwil

Y prif gwestiwn ymchwil ar gyfer y gwerthusiad economaidd yw: pa mor gosteffeithiol yw'r cynllun peilot? Mae cwestiynau ymchwil atodol yn cynnwys:

- beth yw costau'r cynllun peilot?
- o safbwynt y sector cyhoeddus, ble mae costau a manteision y cynllun peilot yn cronni?
- o safbwynt cymdeithasol, ble mae costau a manteision y cynllun peilot yn cronni?
- a yw'r cynllun peilot yn cynhyrchu enillion economaidd yn y tymor hwy?
- beth yw canlyniadau cost y cynllun peilot o ran llesiant, iechyd corfforol, iechyd meddwl, llythrennedd ariannol a diogelwch, ac a ydynt yn helpu gyda lleihau tlodi a gwella mynediad at y farchnad lafur, addysg a dysgu gydol oes?

## Persbectif

Yn dilyn argymhellion diweddar gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), a chanllawiau Trysorlys EF ar gyfer arfarnu a gwerthuso yn y llywodraeth (y Llyfr Magenta) (Drummond ac eraill, 2005; NICE, 2022; Trysorlys EF, 2022), bydd y prif ddadansoddiad yn mabwysiadu persbectif y sector cyhoeddus. Mae hyn yn helpu i ganfod newid costau rhwng sectorau ac yn ystyried yr effaith ar gymdeithas yn ei chyfanrwydd, yn hytrach na chanolbwyntio ar gyllideb un adran neu asiantaeth yn unig. Bydd egwyddorion cost cyfle yn sail i'r holl ddadansoddiadau gan gynnwys pwysau marw, gollyngiadau, dadleoli. Bydd dadansoddiadau eilaidd yn ymestyn costau a chanlyniadau ehangach i gymdeithas.

## Gorwel amser a dilyniant

Bydd y gorwel amser yn cyd-fynd â hyd y camau dilynol – hynny yw, am 24 mis yn dilyn casglu data sylfaenol (T1) ar gyfer y carfanau ymyrraeth a chymharydd.

## Mesur y defnydd o adnoddau

Bydd data yn cael ei gasglu i amcangyfrif yr adnoddau a’r costau ar gyfer y cynllun peilot ac ar gyfer cymorth a/neu wasanaethau cofleidiol. Bydd data’n cael ei gasglu o ffynonellau cynradd i ddechrau, yn fwyaf nodedig drwy arolwg o dimau gadael gofal mewn awdurdodau lleol, ac o gyfarfodydd â rhanddeiliaid allweddol. Cynhelir ymarfer cwmpasu i lywio dull strwythuredig o gasglu data gan randdeiliaid, wedi’i lywio gan yr ymchwil gweithredu. Defnyddir cyfweliadau a chyfarfodydd i ddeall union natur y gwasanaethau a’r cymorth a ddarperir, ac felly’r eitemau i’w costio, a bydd y costau sy’n gysylltiedig â’r rhain yn cael eu nodi ar gais ysgrifenedig i’r sefydliadau a rhanddeiliaid perthnasol.

Er mwyn nodi a mesur effaith yr ymyrraeth, bydd cyfluniad ehangach o gefnogaeth gwasanaeth yn cael ei adolygu a all gynnwys rheoli rhaglenni, hyfforddi staff rheng flaen a deunyddiau addysg. Gall staff rheoli a gweinyddol allweddol gynnwys arianwyr y cynllun peilot a rhanddeiliaid cysylltiedig (uwch-weision sifil) yn Llywodraeth Cymru, rheolwyr (Penaethiaid Gwasanaethau Plant), gweithwyr cymdeithasol a gweinyddwyr o fewn awdurdodau lleol, cynghorwyr personol, a rhanddeiliaid allweddol eraill. Bydd data trwybwn (y cynnig a’r defnydd o wasanaethau) a data costau cysylltiedig eraill yn cael eu casglu gan wasanaethau cymorth perthnasol, gan gynnwys Cyngor ar Bopeth. Gall fod amrywiad yng nghyfluniad gwasanaethau cymorth, rheoli a gweinyddol rhwng ac o fewn lleoliadau (awdurdodau lleol), a bydd archwiliad o wasanaethau a gynlluniwyd yn erbyn gwasanaethau a ddarparwyd mewn gwirionedd yn nodi’r rhain.

Gall nodi costau gwasanaethau uniongyrchol gynnwys data ar gyfer yr holl gostau sy’n gysylltiedig â darparu gwasanaeth, yn benodol costau gweithredol a gorbenion cynnal y gwasanaeth. Bydd y costau hyn yn cael eu casglu’n uniongyrchol gan awdurdodau lleol a gwasanaethau eraill, drwy brofforma arolwg. Bydd costau uniongyrchol yn cyfrif am gost darparu gwasanaethau, monitro, gweithgarwch dilynol, a gweithgareddau gweinyddol cysylltiedig. Felly, bydd data’n cael ei gasglu ar gyfer cyfanswm costau darparu gwasanaethau, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol sy’n darparu cyswllt uniongyrchol,

rheolaeth, goruchwyliaeth, cyfanswm argostau cyflog, costau hyfforddi a theithio sy’n gysylltiedig â darparu’r gwasanaeth, cyfanswm gorbenion, nifer y staff dan sylw, cyfanswm nifer y cleientiaid a wasanaethwyd, a nifer cymedrig y cysylltiadau o ddechrau’r cymorth hyd at gwblhau’r cynllun peilot.

Bydd effeithiau cost bwriadol ac anfwriadol yn cael eu gwerthuso trwy gasglu data ar sail arolygon a chyfarfodydd cydgynhyrchu anffurfiol, a thrwy gyfeirio at y data monitro. Bydd newidiadau yn amgylchiadau derbynwyr y cynllun peilot, megis addysg, cyflogaeth neu statws hyfforddiant, yn cael eu harchwilio.

Bydd y persbectif cymdeithasol yn archwilio newidiadau amserol yn yr amgylchedd polisi, megis materion galw a chyflenwad yn y farchnad dai i bobl ifanc sy’n gadael gofal – er enghraifft, cynnydd yn y cyflenwad (argaeledd) o opsiynau tai, ac a yw costau tai a llety â chymorth yn codi i drothwyon newydd.

### Prisio data defnydd adnoddau

Bydd eitemau data’n cael eu casglu mewn unedau wedi’u dadgyfuno lle bo’n bosibl, a bydd dull micro-gostio’n cael ei ddefnyddio i nodi’r amrywiadau mewn patrymau costio. Bydd costau uned ar gyfer pob mewnbwn adnoddau yn deillio’n bennaf o ffynonellau eilaidd cenedlaethol – er enghraifft, costau cyfeirio’r GIG yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol neu gasgliad costau unedau’r Uned Adnoddau Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (PSSRU), neu drwy raddfeydd cyflog pwyntiau ar y golofn gyflog ar gyfer pob awdurdod lleol (Jones a Burns, 2021). Bydd y defnydd o bob adnodd yn cael ei brisio mewn termau ariannol gan ddefnyddio costau uned diweddaraf a mwyaf priodol y DU neu brisiadau cyfranogwr a amcangyfrifwyd ar adeg y dadansoddiad. Bydd yr arian a ddefnyddir yn cael ei fynegi yn y bunt Sterling (£), am flwyddyn cost sylfaenol.  Gwneir addasiadau ar gyfer chwyddiant gan ddefnyddio mynegai gwasanaethau ysbyty ac iechyd cymunedol yr Uned Adnoddau Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (PSSRU), a chyfradd ddisgownt y Llyfr Gwyrdd, a elwir yn Gyfradd Ffafriaeth Amser Cymdeithasol (STPR), i’w defnyddio yn arfarniad llywodraeth y DU. Bydd yr holl gostau a gronnir y tu hwnt i’r cyfnod dilynol o 12 mis yn cael eu disgowntio i werthoedd presennol gan ddefnyddio cyfraddau disgownt a argymhellir yn genedlaethol (Jones a Burns, 2021).

## Dadansoddi data

Cynhelir y gwerthusiad economaidd ochr yn ochr â'r gwerthusiadau gweithredu ac effaith, gan ddefnyddio dyluniadau a fframweithiau dadansoddol y rhannau hynny o’r astudiaeth. Bydd manylion cymaryddion a dulliau o roi cyfrif am dueddiadau dethol yn adlewyrchu’r rhai a gynlluniwyd ar gyfer y gwerthusiad effaith, ac fe’u hategir gan ganllawiau (Kreif, Grieve a Sadique, 2013; Deidda ac eraill, 2019; Stinnett a Mallahy, 1998). Bydd y dadansoddiad yn cael ei lywio gan adolygiad cynhwysfawr o’r llenyddiaeth ehangach ynghylch incwm sylfaenol cyffredinol ac ymyriadau trosglwyddo arian parod tebyg eraill, y mae nifer gynyddol ohonynt. Bydd y set ddadansoddi lawn yn cynnwys yr holl newidynnau cost a chanlyniadau, yn unol â’r egwyddor “bwriad i drin”, gyda phob cyfranogwr sy’n cael ei ddyrannu i grŵp ymyrraeth neu reolydd yn cael ei ddadansoddi yn y grŵp y cafodd ei ddyrannu iddo’n wreiddiol, waeth a yw wedi derbyn yr ymyrraeth ai peidio.

Bydd y defnydd o eitemau defnydd adnoddau yn cael ei grynhoi yn ôl grŵp cymharydd a bydd gwahaniaethau rhwng grwpiau yn cael eu dadansoddi gan ddefnyddio profion t ar gyfer newidynnau parhaus a phrofion chi sgwâr Pearson ($x^2$) ar gyfer newidynnau categorïaidd. Bydd gwahaniaethau cymedrig mewn costau a chanlyniadau rhwng y breichiau ymyrraeth a chymharydd yn cael eu hamcangyfrif a bydd y cyfwng hyder ymlwytho o 95% yn cael ei gyfrifo ar sail 1,000 (neu fwy) o atgynhyrchiadau. Bydd mesurau ansicrwydd (gwallau safonol a chyfyngau hyder) hefyd yn cael eu hadrodd ar gyfer yr amcangyfrifon cymedrig.

Bydd costau a manteision yn anelu at gofnodi effaith uniongyrchol polisi ar lesiant ac effeithiau cymdeithasol ehangach megis ymgysylltu ag addysg, llythrennedd ariannol, llesiant seicolegol, a chanlyniadau eraill o ddiddordeb. Bydd egwyddorion cost cyfle yn sail i'r holl gyfrifiadau. Bydd data coll naill ai o hunanadroddiadau, data cysylltiedig neu arolygon cyfranogwyr yn cael ei briodoli lle bo'n briodol i leihau effaith data coll ar ganlyniadau atchweliadau. Bydd gwiriadau sensitifrwydd yn cael eu cynnal yn erbyn data heb ei briodoli i asesu'r senarios achos gorau / gwaethaf o ganlyniadau coll, a allai fod yn arbennig o berthnasol os oes arwyddion o batrymau ar goll nid ar hap. Mae hyn yn cyfeirio at ddata coll pan fo'r rheswm pam mae gwerth ar goll yn gysylltiedig â'r gwerth coll ei hun, neu â phatrymau newidynnau heb eu harsylwi. Yn olaf, defnyddir technegau naratif ar gyfer canlyniadau na ellir rhoi gwerth ariannol arnynt, neu lle bydd archwilio pellach yn bwysig, megis ysgogiadau a chymhellion ariannol, mecanweithiau newid a chanlyniadau anfwriadol. Bydd hyn yn cysylltu â phecynnau gwaith gwella damcaniaeth ac ansoddol y gwerthusiad.

Bydd gwerth am arian yn cael ei fynegi i ddechrau yn nhermau cost a budd cymdeithasol 24 mis ar ôl yr ymyriad, gan drosi canlyniadau i werthoedd ariannol. Byddwn yn dilyn canllawiau derbyniol a amlinellir yn y Llyfr Gwyrdd, sydd wedi'u llunio i archwilio'r amcanion datganedig o ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (Trysorlys EF, 2022). Bydd pob dadansoddiad yn cael ei gynnal gan ddefnyddio meddalwedd ddadansoddol briodol fel STATA, R neu Microsoft Excel, gyda rhifau pecyn a fersiwn perthnasol yn cael eu cofnodi yn ystod y cam adrodd.

## Dadansoddiad canlyniadau a chostau

Bydd y dadansoddiad canlyniadau a chostau yn cyflwyno defnydd o adnoddau, costau a chanlyniadau eilaidd. Bydd pob tabl yn cyflwyno'r costau cyfanredol cymedrig gyda'u gwallau safonol ar gyfer yr ymyrraeth a'r cymharydd, a'r gwahaniaeth cymedrig ymlwytho (canlyniad eilaidd y gymhareb risg) gyda'u cyfyngau hyder o 95 y cant. Cyflwynir y costau a'r canlyniadau mewn ffordd ddadgyfunedig, h.y. gwerthoedd cryno a mesurau gwasgaru ar gyfer pob categori cost (a chyfanswm costau) a phob effaith neu ganlyniad sy'n gysylltiedig â'r cymaryddion. Yna, bydd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn rhoi eu gwerth cymharol eu hunain ar y canlyniadau/effeithiau gwahanol.

## Ansicrwydd a dadansoddiadau sensitifrwydd

Rydym yn bwriadu cynnal amrywiaeth o ddadansoddiadau sensitifrwydd i archwilio effaith ansicrwydd ynghylch cydrannau allweddol y gwerthusiad economaidd ar ganlyniadau economaidd. Bydd y rhain yn cael eu cynnal ar gyfer costau a chanlyniadau allweddol, yn

benodol pan fyddant yn sensitif iawn i rai gwerthoedd neu newidynnau mewnbwn, megis costau gwasanaethau uniongyrchol, gwasanaethau cymorth, gwaith rheoli, a gwasanaethau gweinyddol rhwng lleoliadau ac ynddynt.

Bydd dadansoddiadau is-grwpiau yn adlewyrchu'r rhai a gynhaliwyd ar gyfer y prif ddadansoddiad. Gellir defnyddio ystadegau cryno a dadansoddiadau clwstwr i bennu nodweddion data.

Bydd yr asesiad economaidd yn cael ei adrodd yn unol â rhestr wirio adrodd Safonau Adrodd Gwerthuso Economaidd Iechyd Cyfunol (CHEERS) 2022 (Husereau ac eraill, 2022).

# Casgliadau

Mae'r adroddiad hwn wedi manylu ar y cynlluniau dadansoddi ar gyfer dwy agwedd bwysig ar y gwerthusiad, ac felly mae'n ategu ac yn dyfnhau'r cynlluniau a amlinellwyd ym mhrotocol yr astudiaeth (Westlake ac eraill, 2024). Bydd canlyniadau'r dadansoddiad hwn yn ein galluogi i amcangyfrif effeithiau triniaeth cyfartalog y cynllun peilot ar gyfer y garfan gyfan, gyda'r potensial i ystyried effeithiau triniaeth ar is-grwpiau os oes digon o ddata ar gael. Ynghyd â'r dadansoddiad ansoddol a fanylir mewn mannau eraill (gweler Westlake ac eraill, 2024), bydd hyn yn rhoi darlun crwn o ba mor effeithiol y bu'r cynllun peilot ar y canlyniadau o ddiddordeb, a'r ffyrdd y mae wedi gwneud gwahaniaeth i fywydau'r bobl ifanc dan sylw.

Bydd y dadansoddiad economaidd yn rhoi rhagor o wybodaeth i lunwyr polisi a ddylai lywio penderfyniadau ynghylch y ffyrdd mwyaf costeffeithiol o gefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal yng Nghymru.

# Cyfeiriadau

Briheim-Crookall L, Baker C a Selwyn J (2020) 'What Makes Life Good: Care leavers' views on their well-being' Coram Voice a Chanolfan Rees, Prifysgol Rhydychen

Canolfan Gwyddoniaeth Agored (2015) 'Guidelines for Transparency and Openness Promotion (TOP) in Journal Policies and Practices "The TOP Guidelines" Version 1.0.1'

Chen H T (2014) 'Practical program evaluation: Theory-driven evaluation and the integrated evaluation perspective' Sage Publications

Yr Adran Addysg (2024) 'Longitudinal Education Outcomes (LEO): collection' Llywodraeth y DU

Deidda M, Geue C, Kreif N, Dundas R and McIntosh E (2019) 'A framework for conducting economic evaluations alongside natural experiments' Social Science and Medicine cyfrol 220, tudalennau 353 i 361

Drummond M, Sculpher M, Torrance G, O'Brien B and Stoddart G (2005) 'Methods for the Economic Evaluation of Health Care Programmes' Rhydychen, Gwasg Prifysgol Rhydychen

Elman C, Kapiszewski D a Lupia A (2018) 'Transparent Social Inquiry: Implications for Political Science' Annual Review of Political Science cyfrol 21, tudalennau 29 i 47

Trysorlys EF (2020) 'The Magenta Book: Central Government Guidance on Evaluation' Llywodraeth y DU

Trysorlys EF (2022) 'The Green Book: Central Government Guidance on Appraisal and Evaluation Practice Guide' Hawlfraint y Goron

Holland, S; Westlake, D; Roberts, L; Vallis, D; Lloyd, H; Sanders, M; Mathur, V; Bezeczky, Z;, Pickett, K; Johnson, M; Hick, R; Schroeder, E; Fahr, P (2024) Adroddiad gwerthuso'r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol i Bobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 12/2024

Husereau D, Drummond M, Augustovski F, de Bekker-Grob E, Briggs A H, Carswell C ac eraill (2022) 'Consolidated Health Economic Evaluation Reporting Standards 2022 (CHEERS 2022) statement: updated reporting guidance for health economic evaluations' BMJ cyfrol 376, e067975

Iacus S M, King G a Porro G (2012) 'Causal Inference without Balance Checking: Coarsened Exact Matching' Political Analysis cyfrol 20, rhif 1, tudalennau 1 i 24

Ioannidis, J.P.A. (2005) 'Why most published research findings are false', PLoS Medicine, 2(8), e124. doi: 10.1371/journal.pmed.0020124

Jones K a Burns A (2021) 'Unit Costs of Health and Social Care 2021' Personal Social Services Research Unit, Prifysgol Caint, Caergaint

Kreif N, Grieve R a Sadique M Z (2013) 'Statistical methods for cost-effectiveness analyses that use observational data: a critical appraisal tool and review of current practice' Health Economics cyfrol 22, rhif 4, tudalennau 486 i 500

Kroenke K, Spitzer R L a Williams J B W (2003) 'The Patient Health Questionnaire-2: Validity of a Two-Item Depression Screener' Medical Care cyfrol 41, rhif 11, tudalennau 1284 i 1292

Little R J A (1988) 'A Test of Missing Completely at Random for Multivariate Data with Missing Values' Journal of the American Statistical Association cyfrol 83, rhif 404, tudalennau 1198 i 1202

Cymru Cyflog Byw (2023) Beth ydyw? – Cymru Cyflog Byw

Mathur, V. Roberts, L., Bezeczky, Z, Lloyd, H., Vallis, D., Sanders, M., Pickett, KE, Johnson, M., Hick, R. Schroeder, E. Fahr, P. Petrou, S., Lee, H., Holland, S., a Westlake, D. (2025). Gwerthuso'r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol i Bobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru:  2024 i 2025. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 20/2025

Ministry of Housing, Communities & Local Government. (2019). English indices of deprivation 2019: domains of deprivation (File 2). GOV.UK

NICE (2022) 'NICE health technology evaluations: the manual – Process and methods [PMG36]'

Ofosu G K a Posner D N (2023) 'Pre-Analysis Plans: An Early Stocktaking' Perspectives on Politics cyfrol 21, rhif 1, tudalennau 174 i 190

Open Science Collaboration (2015) 'Estimating the reproducibility of psychological science', *Science*, 349(6251), aac4716. doi: 10.1126/science.aac4716

Pawson R a Tilley N (1997) 'Realistic Evaluation' Sage Publications

Pawson R (2013) 'The Science of Evaluation: A Realist Manifesto' Sage Publications

Rosenbaum P R a Rubin D B (1983) 'The Central Role of the Propensity Score in Observational Studies for Causal Effects' Biometrika cyfrol 70, rhif 1, tudalennau 41 i 55

Sanders, M. a Vallis, D. (2023) Trial Protocol – Additional Financial Assistance for Care Leavers Trial, Centre for Homelessness Impact a Choleg y Brenin, Llundain

Spitzer R L, Kroenke K, Williams J B W a Löwe B (2006) 'A Brief Measure for Assessing Generalized Anxiety Disorder: The GAD-7' Archives of Internal Medicine cyfrol 166, rhif 10, tudalennau 1092 i 1097

StataCorp LLC (2019) 'Stata Statistical Software: Release 16' College Station, TX: StataCorp LLC

Sterne J ac eraill (2009) 'Multiple imputation for missing data in epidemiological and clinical research: potential and pitfalls' BMJ cyfrol 338, 2393

Stinnett A a Mallahy J (1998) 'Net health benefits: a new framework for the analysis of uncertainty in cost-effectiveness analysis' Medical Decision Making cyfrol 18, tudalennau 68 i 80

Thorn J, Davies C, Brookes S, Noble S, Dritsaki M, Gray E ac eraill (2021) 'Content of Health Economics Analysis Plans (HEAPs) for trial-based economic evaluations: expert Delphi consensus survey' Value in Health cyfrol 24, tudalennau 539 i 547

Llywodraeth Cymru (2019) Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (diweddariad llawn i'r mynegai gyda graddfeydd): *2019*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2022a) 'Cynllun peilot incwm sylfaenol i bobl ifanc sy'n gadael gofal: trosolwg o'r cynllun' Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2022b) Datganiad Ysgrifenedig: Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol i Bobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru (16 Chwefror 2022)

Llywodraeth Cymru (2024) 'Ystadegau'r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol i Gobl sy'n Gadael Gofal yng Nghymru: Awst 2022 i Orffennaf 2024' Llywodraeth Cymru

Westlake D, Holland S, Sanders M, Schroeder E, Pickett K E, Johnson M ac eraill (2024) 'The basic income for care leavers in Wales pilot evaluation: Protocol of a quasi-experimental evaluation' PLOS ONE cyfrol 19, rhif 10, rhif erthygl e0303837

White I R, Royston P a Wood A M (2011) 'Multiple imputation using chained equations: Issues and guidance for practice' Statistics in Medicine cyfrol 30, rhif 4, tudalennau 377 i 399